




WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cynllunio i Ryddhau Cleifion – Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 255A2017-18



Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gabrielle Smith a Katrina Febry.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â rhanddeiliaid i wella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, ac er bod perfformiad wedi gwella mae mwy o waith i'w wneud o hyd.

Adroddiad cryno

Y Cefndir	4
Gwybodaeth gyd-destunol	5
Y prif ganfyddiadau	6
Argymhellion	7

Adroddiad manwl

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn gwella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Mae'r cynlluniau hynny wedi'u cefnogi gan bolisi rhyddhau sydd yn gynhwysfawr ar y cyfan, ond mae lle i wella ei lwybrau

9

Mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau penodol i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'n hyfforddi staff ar y broses ryddhau. Er hynny, mae lle i gynyddu hyder y staff fel eu bod yn rhyddhau cleifion yn brydlon

21

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol ar y cyfan, ac er bod perfformiad wedi gwella mae mwy o waith i'w wneud o hyd

32

Atodiadau

Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd	41
Methodoleg archwilio	44
Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion	46
Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion	54

Adroddiad cryno

Y Cefndir

- 1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael, yn y man cywir, ac ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig mewn llif cleifion da ac yn allweddol i sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG. Llif cleifion yw'r llif o gleifion rhwng staff, adrannau a sefydliadau eraill ar hyd llwybr gofal, o fod wedi cyrraedd yr ysbyty hyd at ryddhau.
- 2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu ganslo derbyniadau cynlluniedig.
- 3 Bob blwyddyn ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y cleifion hyn yn dychwelyd adref gyda mân anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol, os o gwbl, heb fod angen cynlluniau a darpariaeth gymhleth. I'r 20% o gleifion sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenion iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.
- 4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty, o ail-dderbyn i'r ysbyty neu'r angen am gymorth hirdymor.
- 5 Er gwaethaf y lluosogrwydd o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,^{1 2 3} dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2015 ac yn 2016 gan Uned Gyflawni GIG Cymru yn holl ysbytai Cymru fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnlol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:
 - gweithio'n well gyda gwasanaethau cymunedol;
 - nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
 - mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau; a
 - gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

¹ Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005) 035, **Hospital Discharge Planning Guidance, 2005/035** [Saesneg yn unig]

² Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, **Passing the Baton, 2008**

³ Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (NICE), **Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care needs, 2015**

- 6 Asesodd Uned Gyflawni GIG Cymru y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodwyd yn 'Passing the Baton'². Mae'r canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn dangos bod dystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn wael gan amlaf o'i hasesu yn erbyn arferion disgwylidig. Dangosir y canfyddiadau'n fanylach yn **Atodiad 1**.
- 7 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan Uned Gyflawni GIG Cymru wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno i gynlluniau rhyddhau cleifion.
- 8 Archwiliai'r adolygiad hwn a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio i ryddhau. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn **Atodiad 2**. Yn y gwaith, gofynnwyd yn benodol a oedd y Bwrdd Iechyd:
- wedi sefydlu fframwaith cynllunio strategol cadarn er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
 - wedi cymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau; ac
 - wedi gwneud trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion.
- 9 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, bu'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cynnal adolygiad o waith addasu tai. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwrriedir cyhoeddi'r adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad hyn, yn nhymor yr hydref 2017.

Gwybodaeth gyd-destunol

- 10 Ers 2015, mae trefniadau rheoli gweithredol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys chwe uned gyflawni. Caiff pob uned gyflawni ei harwain gan 'driwriaeth' graidd, sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Nyrsio. Dyma'r chwe uned gyflawni:
- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
 - Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu
 - Ysbyty Treforys
 - Ysbyty Tywysoges Cymru
 - Ysbyty Singleton
 - Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol

- 11 Oherwydd ei natur arbenigol, Ysbyty Treforys sy'n rheoli mwyafrif y cleifion cymhleth o fewn y Bwrdd Iechyd ei hun ac o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Er mwyn sicrhau bod gan Ysbyty Treforys ddigon o gapasiti i reoli galw aciwt, caiff cleifion sy'n byw y tu allan i ardal Abertawe eu rhyddhau i ysbytai sy'n nes at gyfeiriad eu cartref cyn iddynt fod yn ddigon iach i'w rhyddhau adref.

Y prif ganfyddiadau

- 12 Dyma ein casgliad cyffredinol: **mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â rhanddeiliaid i wella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, ac er bod perfformiad wedi gwella mae mwy o waith i'w wneud o hyd.** Yn y paragraffau isod, rydym wedi nodi'r prif resymau dros ddod i'r casgliad hwn.
- 13 **Cynllunio:** Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn gwella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Mae'r cynlluniau hynny wedi'u cefnogi gan bolisi rhyddhau sydd yn gynhwysfawr ar y cyfan, er bod lle i wella llwybrau'r Bwrdd Iechyd:
- mae cynlluniau clir ar waith i wella cynllunio i ryddhau cleifion, a ddatblygwyd gydag awdurdodau lleol, gyda ffocws ar gydweithio ac ymateb i bwysau'r gaeaf;
 - mae lle i gryfhau'r polisi rhyddhau cleifion, ond mae'n cymharu'n dda ag arferion da; a
 - mae sawl llwybr rhyddhau ar waith, ond mae'r cysylltiadau rhwng llwybrau cyffredinol a phenodol yn aneglur ac nid ydynt wedi'u nodi'n glir yn y polisi rhyddhau.
- 14 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion:** mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau penodol i gefnogi cynllunio rhyddhau ac mae'n hyfforddi staff ar y broses ryddhau, ond mae lle i gynyddu hyder y staff fel eu bod yn rhyddhau cleifion yn brydlon. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- mae adnoddau amlddisgyblaethol pwrpasol ar waith mewn ysbytai i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion, ond nid ydynt ond yn weithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener; ac
 - mae hyfforddiant staff wedi cael ei gyflwyno i gynyddu ymwybyddiaeth o bolisiau a llwybrau newydd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo gynyddu hyder staff er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.
- 15 **Monitro ac adrodd:** Mae'r trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol ar y cyfan, ac er bod perfformiad wedi gwella mae mwy o waith i'w wneud o hyd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad mewn modd strategol a gweithredol; ac
 - Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o wybodaeth i gefnogi gwaith craffu amserol ar lif cleifion, ond gallai gynnwys data sy'n ymwneud yn fwy penodol â chynllunio i ryddhau cleifion wrth adrodd gerbron pwyllgorau'r bwrdd.
- Gwelir arwyddion o welliant mewn perfformiad o ran hyd arosiadau ac amseroedd aros mewn Adrannau Achosion Brys, ond mae angen gwneud mwy i leihau'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

Argymhellion

- 16 O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi cyflwyno sawl argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, lle nodir sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Dangosyn 1: argymhellion

Argymhellion	
A1	<p>Polisi Rhyddhau. Er bod y polisi'n cymharu'n dda â'r matrices aeddfedrwydd arfer da, nodwyd sawl maes lle gellid cryfhau polisi rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd. Wrth adolygu'r polisi, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod e bolisi rhyddhau cleifion yn cynnwys cyfeiriad at gynllunio i ryddhau yn fuan, y risg o aildderbyn cleifion, a rhyddhau o Adrannau Achosion Brys.</p>
A2	<p>Llwybrau rhyddhau. Wrth adolygu llwybrau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd, gwelsom y gellid cyflwyno sawl gwelliant i gryfhau'r defnydd o lwybrau rhyddhau. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl lwybrau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a manteisio ar y cyfle i:</p> <ul style="list-style-type: none">• ystyried eu rhesymoli (cael gwared ag unrhyw achosion diangen o orgyffwrdd);• gwneud y cysylltiadau rhwng pob un o'r llwybrau yn fwy eglur;• gwneud unrhyw wybodaeth esboniadol yn gliriach;• disgrifio'r holl lwybrau mewn un man; a• sicrhau bod llwybrau'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd.
A3	<p>Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion Er bod staff ar y cyfan yn ymwybodol o'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, yr oedd bylchau yn y trefniadau hyfforddi ac roedd angen cynyddu hyder y staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <ol style="list-style-type: none">a) sicrhau bod presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn cael ei nodi ar gofnod electronig y staff, fydd yn helpu i wella'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth;b) datblygu hyfforddiant sy'n cynorthwyo i feithrin hyder y staff er mwyn rhyddhau cleifion yn fwy prydlon ac ymdrin â sgysiau anodd â chleifion a'u teuluoedd; acc) ystyried a oes angen i feddygon ymgynghorol dderbyn hyfforddiant ar ryddhau cleifion a bod yn ymwybodol o faterion a pholisi.

Argymhellion

A4 **Adroddiadau rhyddhau.** Gwelsom fod y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn derbyn gwybodaeth reolaidd am achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Serch hynny, ychydig o wybodaeth a gyflwynir iddynt yn benodol am gynllunio i ryddhau cleifion a fyddai o gymorth i sicrhau dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd perfformiad y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad gerbron y Bwrdd a'i Bwyllgorau drwy gynnwys mesurau ychwanegol yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad:

- nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;
- aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;
- y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;
- canran yr achosion o ryddhau sy'n digwydd yn ystod y nos, heb gynllunio ar eu cyfer; a
- chanran yr achosion o ryddhau cyn pen 24 awr a 72 awr ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol iach'.

Adroddiad manwl

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i gydweithio ag awdurdodau lleol i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Cefnogir y cynlluniau hynny gan bolisi rhyddhau sydd yn gynhwysfawr ar y cyfan, ond mae lle i wella ei lwybrau

Mae cynlluniau clir ar waith i wella cynllunio i ryddhau cleifion, a ddatblygwyd gydag awdurdodau lleol, gyda ffocws ar gydweithio ac ymateb i bwysau'r gaeaf

- 17 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cadarnhau ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu gynnwys cynlluniau i wella prosesau rhyddhau. Mae hefyd yn cyfleu'n⁴ glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau'r nifer o bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.
- 18 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd naill ai'n datblygu, neu wedi sefydlu nifer o gynlluniau a strategaethau ar lefel ysbytai, ar lefel y Bwrdd Iechyd gyda'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo. Mae'r cynlluniau a'r strategaethau hyn yn cynnwys:
 - Rhaglen Gwella Llif Cleifion
 - Polisi Rowndiau'r Bwrdd Diogelwch a Llif Cleifion
 - Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016-17
 - Beth sy'n Bwysig i Mi
 - Cynllun Capasiti ac Uwchgyfeirio ar gyfer Pwysau Tymhorol 2016-2017
- 19 Cychwynnodd y Bwrdd Iechyd Raglen Gwella Llif Cleifion (y Rhaglen GLIC) ym mis Ionawr 2013. Mae'r Rhaglen GLIC wedi bod yn faes gwaith allweddol i'r Bwrdd Iechyd ac fe'i cynhwyswyd yn un o'r saith rhaglen newid strategol yn 2015-16. Nod y Rhaglen GLIC yw gwella llif cleifion er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n aros am ofal heb ei drefnu a mynediad at ofal y tu allan i'r ysbyty ar ôl rhyddhau drwy:
 - ymwreiddio rowndiau ward ar bob ward fel ffordd o reoli llif yn effeithiol;
 - aildylunio llwybrau derbyn brys ar gyfer pobl hŷn fregus, drwy ddefnyddio egwyddorion llif cleifion i dargedu'r rhesymau sydd wrth wraidd unrhyw oedi; a
 - chefnogi amseroedd mynediad gwell ar gyfer gwasanaethau brys 'drws blaen' yn Ysbytai Treforys, Singleton a Thywysoges Cymru drwy ddefnyddio egwyddorion llif cleifion a thrwy fuddsoddi mewn fferylliaeth, diagnosteg a therapyddion.

⁴ Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20](#), 2016

- 20 Mae'r Rhaglen GLIC wedi arwain at weithredu rowndiau ward dyddiol⁵ ac wedi arwain at gyflwyno Polisi Rowndiau'r Bwrdd Diogelwch a Llif Cleifion yn 2015. Mae Polisi Rowndiau'r Bwrdd Diogelwch a Llif Cleifion yn nodi'r hyn y dylid ei drafod ar rowndiau ward y bwrdd a chyfrifoldebau pob grŵp o staff sy'n bresennol.
- 21 Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod o Bartneriaeth Bae'r Gorllewin (PBG), ynghyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Abertawe. Sefydlwyd y PBG yn 2013 i gyflenwi model gofal integredig ar gyfer pobl hŷn ar draws y Bwrdd Iechyd. Fe'i dyluniwyd ar ffurf ymagwedd systemau cyfan i ymateb i'r heriau a geir yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio. Cytunodd PBG ar raglen ar y cyd, o dan y teitl 'Beth sy'n Bwysig i Mi', i ddatblygu haen gyson o ddarpariaeth gwasanaeth gofal canolraddol rhwng y pedwar partner. Ariennir 'Beth sy'n Bwysig i Mi' ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a thri awdurdod lleol. Trafodir y camau a gymerir gan PBG ymhellach [ym mharagraffau 31 a 32](#).
- 22 Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n unol â Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd a nodai ei flaenoriaethau ar gyfer 2016-19. Nodai'r CTCI yr heriau o flaen y Bwrdd Iechyd o ran llif cleifion, ac uchelgais y Bwrdd i ddefnyddio systemau electronig i gefnogi rowndiau ward y bwrdd ymhellach er mwyn casglu gwybodaeth a gwella llif gwybodaeth wrth ryddhau o'r ward i'r gwasanaethau cymunedol.
- 23 Yng Nghynllun Capasiti ac Uwchgyfeirio ar gyfer Pwysau Tymhorol 2016-17 (Cynllun y Gaeaf) nodir y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd i leihau'r galw, creu mwy o hyblygrwydd (neu gynyddu) capasiti a gwella'r drefn uwchgyfeirio. Ceir crynodeb o'r camau hyn yn [Nangosyn 2](#).

Dangosyn 2: crynodeb o'r camau a nodwyd yn y Cynllun Capasiti ac Uwchgyfeirio ar gyfer Pwysau Tymhorol 2016-17

Crynodeb o'r camau
<p>I liniaru'r galw</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno'r Gwasanaeth 111 yn 2016. Rhif ffôn am ddim y gall cleifion ei ffonio i drafod anghenion gofal iechyd brys (nad ydynt yn argyfwng) y tu allan i oriau arferol. Bydd yr achosion yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol. Datblygu cynllun fflw cynhwysfawr, gan gynnwys hyfforddi hyrwyddwyr fflw i gynyddu'r defnydd o frechiadau fflw ymhlith cleifion yn y categorïau sydd yn fwyaf agored i niwed.
<p>I liniaru'r galw</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu gwasanaethau Adsefydlu'r Ysgyfaint ar draws pob un o'r 11 o rwydweithiau clwstwr meddyg teulu o fewn y Bwrdd Iechyd. Cyflwyno Rhag-gynllunio Gofal (RhGG) ar draws ein rhwydweithiau clwstwr er mwyn nodi a threfnu'r unigolion hynny yn y gymuned a chanddynt y mwyaf o risg o gael eu derbyn a datblygu cynlluniau RhG er mwyn atal derbyniadau i'r ysbyty neu ofal hirdymor.

⁵Trafodaeth yw'r rownd wardiau ynghylch yr hyn sydd angen digwydd i bob claf fel bo modd ei ryddhau'n unol â'r dyddiad rhyddhau a amcanwyd.

Crynodeb o'r camau

I greu mwy o hyblygrwydd o ran capasiti

- Creu capasiti ychwanegol ar gyfer ymchwyddiadau (gan gynnwys ailddylunio wardiau i ddarparu gwelyau ychwanegol neu ofod i gynnwys gwelyau/troliâu).
- Defnyddio capasiti cartrefi gofal preswyl i gefnogi cleifion sy'n disgwyl am ddyddiad dechrau ar gyfer eu pecyn gofal.
- Camau i gyflymu'r broses ryddhau, fel cynnydd yn y defnydd o lolfeydd rhyddhau a chymorth ar gyfer rhyddhau.
- Llai o waith dewisol yn ystod cyfnodau prysur.

I wella'r broses uwchgyfeirio

- Adnewyddu cynlluniau uwchgyfeirio, prosesau a systemau rhybudd cynnar yr holl safleoedd ysbyty aciwt, er mwyn gwyro prosesau.

- 24 Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17, mynegodd y Bwrdd Iechyd yn glir ei fod yn bwriadu gweithredu rhaglen 'Calonnau a Meddyliau' ar gyfer Llif Cleifion yn 2017-18. Nod y rhaglen yw canolbwyntio ar brosesau mewnol er mwyn lleihau hyd arosiadau ac oedi wrth drosglwyddo gofal. I'r perwyl hwnnw, mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ymwreiddio pecyn llif cleifion SAFER⁶ i gefnogi llif cleifion a rhyddhau diwrnodiau gwely. Y mae hefyd yn parhau i gyfarwyddo a chyfeirio cleifion oddi wrth adrannau achosion brys ac ar lwybrau eraill mwy priodol fel gwasanaethau yn y gymuned.
- 25 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau neu drosglwyddo gofal, er mwyn canfod i ba raddau y mae eu cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Yn **Nangosyn 3** gwelir bod prinder o ofalwyr cartref, prinder o welyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal.

⁶ Offeryn ymarferol yw pecyn llif cleifion SAFER. Ei nod yw lleihau hyd arosiadau a gwella llif a chynyddu diogelwch cleifion. Mae'r pecyn yn cynnwys pum elfen sy'n gysylltiedig ag arfer gorau.

S – Senior Review. All patients will have a senior review before midday by a clinician able to make management and discharge decisions.


A – All patients will have an expected discharge date and clinical criteria for discharge. This is set assuming ideal recovery and assuming no unnecessary waiting.

F – Flow of patients will commence at the earliest opportunity from assessment units to inpatient wards. Wards that routinely receive patients from assessment units will ensure the first patient arrives on the ward by 10 am.

E – Early discharge. A third of patients to be discharged from base inpatient wards before midday.

R – Review. A systematic multi-disciplinary review of patients with extended lengths of stay (more than seven days) with a clear 'home first' mind set.

Dangosyn 3: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017⁷

- 26 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y problemau canlynol yn achosi oedi bob amser, neu'n aml, wrth ryddhau cleifion:
- prinder gofalwyr cartref;
 - prinder gwelyau mewn ysbytai cymunedol;
 - prinder gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl â demetia; a
 - phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol.
- 27 Yn ogystal â hyn, cyfeiriodd y Bwrdd Iechyd at faterion teuluol fel anghydfod ynghylch y dewis o gartref neu faterion ariannol, neu'r ffaith nad yw aelodau o'r teulu ar gael i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio i ryddhau. Cyfeiriwyd hefyd at gapasiti'r gwasanaeth cymunedol, fel dyraniad gweithwyr cymdeithasol, darpariaeth y gwasanaeth nyrsio cymunedol ac oedi wrth gynnal asesiadau ar gyfer gofal parhaus/cymhorthion fel ffactorau a oedd yn achosi oedi. Roedd profiadau staff ward o weithio gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol yn amrywio yn ôl ardal. Dywedodd y rhan fwyaf o staff ward fod trefniadau cydweithio da wedi'u sefydlu â chydweithwyr yr awdurdod lleol, ond nid oedd hynny'n adlewyrchu profiad pawb. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grwpiau Llif Cleifion a Rhyngwyneb i wella llif cleifion o wasanaethau ysbyty i wasanaethau cymunedol, ac mae PBG yn gweithio i sefydlu safon ar gyfer ymateb i raddfeydd amser asesu.

⁷ Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Bydd Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

- 28 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym eu bod wedi adolygu'r broses derbyniadau, ac wedi rhoi pwyslais ar yr angen i staff ward drafod anghenion rhyddhau wrth dderbyn cleifion, er mwyn rheoli disgwyladau cleifion a'u teuluoedd. Mae rowndiau ward dyddiol y bwrdd yn galluogi meddygon ymgynghorol, nyrsys a staff awdurdod lleol i ganolbwyntio ar ddyddiadau rhyddhau a chanolbwyntio y camau y mae angen eu cymryd er mwyn bodlon amcan y dyddiad rhyddhau.
- 29 Ar hyd y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ffrydiau ariannu sy'n anelu i feithrin mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, a'r ddiweddaraf o'r rhain yw'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Cronfa gyfun a gyflwynwyd yn 2014-15 yw'r CGI, ac o ran llif cleifion, mae'n ariannu cynlluniau i atal derbyniadau i'r ysbyty, yn cefnogi annibyniaeth pobl hŷn ac yn lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG). Cafodd y gronfa ei rhyddhau fel cronfa untro yn unig i ddechrau, ond yn 2015-16, fe'i newidiwyd yn gronfa gylchol.
- 30 Datblygodd PBG raglen i drawsnewid gwasanaethau gofal canolraddol yn 2013, y flwyddyn cyn cyflwyno'r CGI. Cytunodd PBG i gyfuno adnoddau i ariannu'r rhaglen, a rhoddodd y CGI gyfle i gyflymu elfennau o'r gwaith. Prif amcanion y rhaglen yw sicrhau gwasanaethau iechyd a chymdeithasol cynaliadwy i bobl hŷn, gan sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n derbyn gofal. Gellir gostwng costau drwy gyfuno adnoddau sefydliadau, a thrwy helpu i osgoi trafodaethau ynghylch pa sefydliadau sy'n gyfrifol am dalu am wahanol elfennau gofal.
- 31 Nod cyntaf PBG oedd gosod seiliau model gwasanaeth canolraddol integredig cyffredin ar draws⁸ y tair ardal awdurdod lleol. Er bod ystod y gwasanaethau sydd ar gael yn amrywio ar hyn o bryd, y dyhead o hyd yw sefydlu model gwasanaeth cyffredin. Roedd y CGI gychwynnol yn galluogi PBG i gynyddu haen y gofal canolraddol drwy ariannu mwy o staff, gan gynnwys gweinyddwyr, nyrsys, cynghorwyr gofal cartref a gweithwyr cymdeithasol ar gyfer yr elfennau gofal canolraddol a ganlyn:
- Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC) ar gyfer Brysbennu Amlddisgyblaeth - pwynt mynediad cyffredin integredig sy'n cynnwys tîm amlddisgyblaeth sy'n gallu brysbennu galwyr yn effeithiol a'u cyfeirio i'r gwasanaeth mwyaf priodol, fel ymateb clinigol, ailalluogi neu ddatrysiaid cymunedol brys (ee tai) (gweler **paragraff 88**);
 - Ymateb Clinigol Acíwt – ymateb clinigol cyflym (ee meddyg, nyrs ac/neu therapydd) i bobl sydd angen asesiad, diagnosis ac/neu driniaeth ar unwaith a fyddai fel arall yn cael eu derbyn i'r ysbyty; a
 - Gwasanaethau ailalluogi derbyn ac adolygu a arweinir gan therapyddion - bydd therapi ailalluogi yn helpu pobl i gadw neu adennill sgiliau y gallent fod wedi'u colli, yn sgil cael eu derbyn i'r ysbyty neu salwch, gan anelu i leihau'r angen am ofal a chymorth parhaus yn y cartref;
 - Cefnogaeth ac Aros i bobl â dementia; a
 - Gwasanaeth ailalluogi canolraddol Cam i Fyny/Cam i Lawr.

⁸Mae gofal canolraddol yn cynnwys ymyriadau i fynd i'r afael ag anghenion mewn argyfwng neu pan fydd anghenion pobl yn newid, gan anelu i sicrhau bod y claf yn gwella hyd yr eithaf ac yn parhau i fyw'n annibynnol.

- 32 Ers hynny, mae'r CGI hefyd wedi cael ei defnyddio i:
- fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol er mwyn cynorthwyo i leihau'r galw am wasanaethau aciwt, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf;
 - ariannu gwasanaethau'r trydydd sector er mwyn helpu i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain a chefnogi trefniadau i ryddhau'n fwy buan;
 - ariannu peilot i ddarparu dau wely cartref gofal yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot gyda ffocws ar osgoi derbyniadau aciwt; ac
 - ariannu ymarfer modelu capasiti ar y cyd er mwyn canfod beth yw capasiti cyfredol gwasanaethau cymunedol a rhagfynegi'r galw yn y dyfodol.
- 33 Mae'r model gorau safonedig ar gyfer gwasanaethau gofal canolraddol wedi bod yn weithredol ar draws y Bwrdd Iechyd ers mis Gorffennaf 2015. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cynlluniau prosiect wedi cael eu datblygu ym mhob awdurdod lleol er mwyn rheoli a monitro cynnydd, gan gynnwys cerrig milltir allweddol yn erbyn nodweddion sylfaenol y model. Caiff y cynnydd ei fonitro'n rheolaidd gan y Cyd-fyrddau Partneriaeth perthnasol.
- 34 Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd, ynghyd â phartneriaid awdurdod lleol, y CGI yn 2016 i gynnal cyd-ymarfer modelu capasiti/galw ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn sail ar gyfer unrhyw gamau penodol wrth gynllunio ar gyfer pwysau tymhorol. Nod yr ymarfer yw canfod bylchau yn y gwasanaethau cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol. Drwy'r gwaith, nodwyd bod cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd leihau hyd arosiadau rhai cleifion a rhyddhau mwy o ddiwrnodiau gwely.
- 35 Wrth ddechrau'r gwaith o weithredu llwyfan gwasanaeth gyffredin canolbwyntiwyd ar ailddylunio gwasanaethau a datblygu model cyson ar draws y bwrdd iechyd. Ar adeg ein hadolygiad, dywedodd staff wrthym fod angen canolbwyntio ar ymwreiddio datblygiad y gweithlu a chryfhau gwaith partneriaeth â'r holl sectorau yng nghamau nesaf y gwaith, er mwyn cefnogi'r broses o integreiddio darpariaeth gwasanaeth ymhellach Dywedodd aelodau staff wrthyf eu bod yn pryderu na fyddai holl elfennau'r cyllid yn parhau am byth, ac y gallai hynny beryglu rhai rhannau o'r gwasanaeth.

Mae lle i gryfhau'r polisi rhyddhau cleifion, ond mae'n cymharu'n dda ag arferion da ar y cyfan

- 36 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau ac/neu drosglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau'r GIG gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.
- 37 Adolygwyd polisi'r sefydliad ar ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal drwy ddefnyddio matrices aeddfedrwydd⁹. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn asesu 17 o elfennau'r polisi, gan ddyfarnu sgôr i bob elfen o un (llai datblygedig) hyd at dri (datblygedig iawn). Yn **Nangosyn 4** gwelir y sgoriau a ddyfarnwyd i ddrafft y Bwrdd Iechyd o'i bolisi rhyddhau yn erbyn y matrices aeddfedrwydd.

⁹ Mae ein matrices aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn 2008.

Dangosyn 4: Perfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn erbyn rhestr wirio arfer da y polisi rhyddhau cleifion

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi
Polisi rhyddhau aml-asiantaeth	3	Nid yw'r Polisi Rhyddhau ond yn berthnasol i staff y Bwrdd Iechyd, ac mae Bwrdd Cefnogi Cyflenwi Gofal Heb ei Drefnu yn monitro'r broses o'i weithredu. Datblygwyd y Polisi Dewis Llety ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r tri awdurdod lleol partner sy'n rhan o PBG. Er y cafwyd rhywfaint o fewnbwn gan yr awdurdodau lleol partner, ni chyfeirir yn y polisi o gwbl at gynnwys cleifion/gofalwyr yn y gwaith o'i ddatblygu.
Adolygwyd y polisi o fewn y flwyddyn ddiwethaf	3	Adnewyddwyd y Polisi Rhyddhau ym mis Ebrill 2016, a bydd yn cael ei adolygu nesaf ym mis Ebrill 2018. Cymeradwywyd y Polisi Dewis Llety ym mis Medi 2016, a bydd yn cael ei adolygu nesaf ym mis Medi 2018.
Cynnwys cleifion/gofalwyr	3	Mae'r Polisi Rhyddhau yn canolbwyntio ar gleifion ac yn mynnu bod cleifion/gofalwyr yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses. Mae'r Polisi yn datgan bod 'dymuniadau cleifion yn hollbwysig', a bod yn rhaid ymgynghori â chleifion ym mhob cam o'r broses ryddhau, a chyd perthnasau a gofalwyr os yw'r claf yn cydsynio i hynny.
Cyfathrebu	3	Mae'r Polisi Rhyddhau yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu ac yn datgan bod yn rhaid 'gwneud pob ymdrech i ystyried gwahaniaethau diwylliannol, crefyddol neu ieithyddol ac anabledau synhwyaidd'.
Gwybodaeth	3	Gyda'i gilydd, mae'r Polisi Rhyddhau a'r Polisi Dewis Llety yn nodi'r gofynion canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • bod cleifion yn derbyn crynodeb teipiedig yn esbonio'r driniaeth a'r gofal a dderbyniwyd yn yr ysbyty; • bod cleifion yn cael gwybodaeth briodol a chynhwysfawr ym mhob cam o'r broses ryddhau; • ymgynghori â chleifion drwy gydol y broses; a • chynnal asesiad cynhwysfawr o'r claf.
Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref	3	Mae'r Polisi Rhyddhau yn egluro pwy a allai gael ei ystyried yn fregus, fel pobl ag anabled dysgu; pobl sy'n ddigartref; pobl ag anabledd corfforol neu synhwyaidd; pobl â salwch meddwl a hen bobl fregus. Ceir cysylltiadau hefyd i ganllawiau ychwanegol i bobl a chanddynt risgiau diogelu, ac mae cynlluniau wedi'u sefydlu ar eu cyfer.
Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol	2	Er nad yw'r naratif yn cynnwys unrhyw gyfeiriad amlwg at asesu cyn derbyn, nodir yn y llwybrau yn atodiad y Polisi Rhyddhau fod angen cynnal asesiad cyn derbyn ar gyfer derbyniadau dewisol.
Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf	3	Nodir yn y Polisi Rhyddhau y dylid pennu amcan o'r dyddiad a'r amser rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf.

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi
Osgoi Aildderbyn	1	Pwysleisir yn y Polisi Rhyddhau fod angen sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon, ond ni chrybwyllir yr angen i daro cydbwysedd rhwng hynny â'r risg o'u haildderbyn. Maer Bwrdd Iechyd newydd gychwyn datblygu llwybr rhyddhau i asesu. Bydd angen i'r llwybrau sicrhau bod cleifion yn derbyn y cyngor a'r gefnogaeth briodol er mwyn osgoi eu haildderbyn lle bo modd osgoi hynny.
Cytundebau a Phrotocolau Lleol	3	Mae'r Polisi Dewis Llety rhanbarthol yn rhan o'r Polisi Rhyddhau Cleifion. Mae'r polisi hefyd yn disgrifio'r broses sydd i'w dilyn pan fydd angen cyfarpar ar gleifion.
Asesu	3	Yn y Polisi Rhyddhau nodir y gofyniad i gwblhau asesiad nyrsio integredig ar gyfer pob claf, gyda mewnbwn gan amryw o ddisgyblaethau. Mae asesu gofal nyrsio a ariennir gan y GIG, anghenion gofal iechyd parhaus ac/neu ofal cymdeithasol wedi'i gynnwys yn rhan o'r llwybrau anghenion cymhleth.
Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys	1	Nid yw'n cynnwys cyngor na chefnogaeth i gleifion a gaiff eu rhyddhau o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.
Rhyddhau i gartref gofal	3	Yn nodi'n glir na ddylid derbyn cleifion yn syth i gartref gofal o ofal aciwt yn yr ysbyty. Ceir llwybr rhyddhau ar gyfer rhyddhau i gartref neu leoliad gofal.
Cysylltiadau â'r polisi dewis llety	3	Ceir cysylltiadau clir rhwng y Polisi Rhyddhau a'r Polisi Dewis Llety, protocol ar gyfer rheoli dewis cleifion pan fo angen cartref gofal.
Opsiynau Gofal	2	Yn cynnwys gwybodaeth am yr opsiynau gofal ar lwybrau'r claf, ond nid yw'r naratif yn cynnwys digon o fanylion.
Prosesau uwchgyfeirio	3	Yn cynnwys prosesau uwchgyfeirio clir i arweinwyr ward ac, os yw'n briodol, cefnogaeth gan uwch reolwyr i ymdrin ag achosion rhyddhau problemus, er mwyn helpu i leihau/gael gwared ag oedi posibl.
Protocolau Rhyddhau Hygyrch	3	Mae'r polisi'n cynnwys atodiadau sy'n dangos gwahanol siartiau llif ar gyfer y llwybr fferyllol a chleifion digartref, a siart lif glir ar gyfer rhyddhau sy'n dangos llwybrau syml a chymhleth, a llwybrau gyda chefnogaeth.

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisiau rhyddhau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (Polisi Rhyddhau, Ebrill 2016 a'r Polisi Dewis Llety, Medi 2016).

- 38 O'r 17 o feini prawf y buom yn profi yn eu herbyn, enillodd y Bwrdd Iechyd sgôr lefel 3 am 13 o'r 17 o elfennau, gan olygu bod gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau cleifion sydd wedi'i ddatblygu'n dda. Gwelsom fod rhai agweddau ar bolisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd heb eu datblygu i'r un graddau. Er bod y polisi'n pwysleisio bod angen rhyddhau cleifion yn brydlon, ni chyfeirir yn benodol at y risg o orfod aildderbyn cleifion. Nid yw'r polisi ychwaith yn cynnwys gwybodaeth am ryddhau cleifion o'r adran damweiniau ac achosion brys.
- 39 Diwygiwyd Polisi Rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn 2016, er mwyn ymateb i ganfyddiadau adolygiad Uned Gyflawni GIG Cymru ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion. Mae'r polisi diwygiedig yn ddogfen gyfeiriol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'n cynnwys y llwybrau rhyddhau. Datblygwyd y Polisi Rhyddhau Cleifion ar y cyd â phartneriaid awdurdod lleol.
- 40 Yn yr un modd, diwygiwyd y Polisi Dewis Llety ym mis Medi 2016, a chafodd ei hysbysu gan ganfyddiadau gwaith Uned Gyflawni GIG Cymru. Mae'r polisi'n nodi'r broses yn fanwl ac yn cynnwys templedi o lythyrau rhyddhau. Datblygwyd y polisi ar y cyd ag awdurdodau lleol partner, ac mae eu henwau wedi'u nodi ar y polisi.
- 41 Mae'r Polisi Rhyddhau ar Polisi Dewis Llety yn cyfleu'n glir mai'r nod yw rhyddhau cleifion i'w preswylfan arferol, ac nad yw'n ddiogel i gleifion aros yn yr ysbyty yn hirach nag sydd angen. Nodir yn y ddau bolisi hefyd na chaiff cleifion eu rhyddhau o ysbyty aciwt i leoliad parhaol mewn cartref gofal.
- 42 Dylid diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol mewn polisïau a gweithdrefnau. Drwy wneud hynny, gwneir defnydd effeithiol o sgiliau a gwybodaeth, a bydd aelodau unigol o staff yn cael eu dwyn i gyfrif am eu rôl yn y broses. Yn y polisi rhyddhau dylid hefyd bennu'r safonau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion.
- 43 Wrth adolygu'r Polisi Rhyddhau, gwelsom ei fod yn rhoi amlinelliad clir o rolau a chyfrifoldebau proffesiynau a thimau sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn cynnwys Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, Cyfarwyddwr Uned, Rheolwyr Safle, y Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion, Nyrsys Arweiniol, Nyrsys â Gofal, Rheolwyr Ward, staff clinigol, staff cymorth rhyddhau, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiol (ee, staff therapïau).

Mae sawl llwybr rhyddhau ar waith, ond mae'r cysylltiadau rhwng llwybrau cyffredinol a phenodol yn aneglur ac nid ydynt wedi'u nodi'n glir yn y polisi rhyddhau

- 44 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a chydgyssylltu barhaus. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.
- 45 Yn rhan o'n gwaith, buom yn edrych ar y prif llwybrau rhyddhau sydd ar waith. Aseswyd yr eglurder ynghylch dibenion y llwybrau a'r defnydd ohonynt ar draws sefydliad, a oedd llwybrau wedi'u datblygu gydag awdurdodau lleol partner, ac a oedd algorithmau, dogfennau safonedig a mesurau ansawdd i gefnogi'r llwybrau.

- 46 Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio tri llwybr rhyddhau cyffredinol: llwybr hunanryddhau a llwybrau rhyddhau syml a chymhleth, yn ogystal â sawl llwybr penodol. Mae'r llwybrau penodol yn canolbwyntio ar agweddau neilltuol ar y broses ryddhau, ee, pan fo angen cyfarpar, pan fo'r claf yn cael ei ryddhau i gartref gofal, neu pan fo angen cychwyn pecyn gofal newydd neu ailgychwyn pecyn gofal blaenorol. Buom yn adolygu'r tri llwybr cymhleth yn erbyn y meini prawf a nodir yn **Nangosyn 5**. Dengys hyn fod llwybrau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn gynhwysfawr ar y cyfan, o'u hasesu yn erbyn ystod o feini prawf, ond mae lle i wella.

Dangosyn 5: elfennau a gyflwynir ar lwybrau rhyddhau cyffredinol Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg

Elfennau	Llwybr	
	Syml	Cymhleth
Diagram llif/coeden benderfyniadau er mwyn nodi cleifion priodol	Ydy	Ydy
Cyrchfan rhyddhau benodol ee man preswyllo arferol	Ydy – darparwyd yn y llwybrau atodol	Ydy – darparwyd yn y llwybrau atodol
Pwrpas clir	Ydy	Ydy
Llwybr cyffredinol neu lwybr ar gyfer cyflwr penodol	Cyffredinol	Cyffredinol
Logisteg trafndiaeth neu drosglwyddo wedi'u cydnabod yn glir	Ydy – darparwyd yn y llwybrau atodol	Ydy – darparwyd yn y llwybrau atodol
Yn berthnasol ar draws yr holl safleoedd ysbyty	Ydy	Ydy
Yn berthnasol bob awr o'r dydd, bob dydd o'r flwyddyn	Aneglur	Aneglur
Wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid y GIG, ee BILlau cyfagos, WAST neu Felindre	Nac ydy	Nac ydy
Wedi'i ddatblygu gydag awdurdodau lleol partner, ac yr un mor berthnasol i'r holl bartneriaid	Ydy	Ydy
Wedi'i gefnogi gan ddogfennau rhyddhau cyffredinol	Nac ydy	Nac ydy
Wedi'i gefnogi gan ddogfennau asesu cyffredinol	Nac ydy	Nac ydy
Mae'r prosesau atgyfeirio yn glir	Nac ydy	Nac ydy
Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth asesu anghenion	Ydy	Ydy
Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth ddarparu gwasanaethau	Ydy	Ydy

Elfennau	Llwybr	
	Syml	Cymhleth
Safonau cytunedig ar gyfer ansawdd a diogelwch	Nac ydy	Nac ydy
Safonau ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff clinigol/gofal yn y gymuned ee, llythyrau rhyddhau	Nac ydy	Nac ydy

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o lwybrau rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

- 47 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu siart lif ar gyfer pob un o'r tri llwybr cyffredinol yn ei bolisi rhyddhau. Mae pob llwybr, fodd bynnag, wedi'u nodi ar un dudalen, sy'n golygu ei bod hi'n anodd deall a yw peth o'r testun yn berthnasol i un o'r llwybrau neu i bob un ohonynt.
- 48 Mae'r llwybrau rhyddhau penodol yn rhoi manylion defnyddiol ynghylch gwahanol rannau'r broses ryddhau (ee, pryd y bydd angen cyfarpar). Fodd bynnag, ni cheir rhyw lawer o gysylltiadau rhwng y llwybrau cyffredinol a'r llwybrau penodol. Mae un o'r llwybrau rhyddhau penodol ar gyfer achosion rhyddhau syml (ond yn cynnwys mwy o fanylion na'r llwybr rhyddhau syml cyffredinol), ac mae hynny'n peri dryswch. Ni adolygwyd unrhyw un o'r llwybrau penodol.
- 49 Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cadarnhau faint o lwybrau cyffredinol a phenodol oedd yn cael eu gweithredu gan y sefydliad. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r Bwrdd Iechyd elwa ar adolygu'r holl llwybrau rhyddhau sy'n bodoli ar hyn o bryd, a heb golli unrhyw fanylder, ystyried rhesymoli'r nifer ohonynt, a chyfleu'r cysylltiadau rhwng pob un o'r llwybrau yn gliriach. Ar ben hynny, er bod llwybrau rhyddhau yn cael eu cyflwyno yn y polisi rhyddhau, ni chyflwynir y gyfres gynhwysfawr o lwybrau yn y polisi hwnnw. Cyfeiriodd y Bwrdd Iechyd at llwybr trosglwyddo rhwng ysbytai, polisi dychwelyd cleifion, polisi hosbis yn y cartref, a sawl llwybr ar gyfer cyflyrau penodol, ond nid yw yr un o'r rhain wedi'u cynnwys yn y Polisi Rhyddhau.
- 50 Roedd rhai aelodau o staff yn teimlo bod nifer y llwybrau rhyddhau yn creu dryswch, gan fod cynifer ohonynt wedi'u sefydlu. Dywedwyd wrthym fod cymhlethdodau'n codi wrth ryddhau cleifion i wahanol ardaloedd y Bwrdd Iechyd ac i ardaloedd byrddau Iechyd eraill.
- 51 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau yn y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.

- 52 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu'.^{10 11} Drwy'r model hwnnw bydd cleifion yn cael eu rhyddhau adref pan fyddant yn iach yn 'feddygol' i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.
- 53 Canfu Uned Gyflawni GIG Cymru mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu' ledled Cymru, ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau.
- 54 Ar adeg ein hadolygiad, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym eu bod yn datblygu llwybrau rhyddhau i asesu. Mae'r pedwar ysbyty yn datblygu eu llwybrau eu hunain yn hytrach nag ymagwedd ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae Bwrdd Cefnogi Cyflenwi Gofal Heb ei Drefnu y Bwrdd Iechyd yn annog cyfranogiad gweithredol wrth lunio'r llwybrau, ac eisiau i'r ysbytai ymroi i'w defnyddio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod rhwystrau i'w goresgyn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r model rhyddhau i asesu; sef agweddau diwylliannol at osgoi cymryd risgiau (priodol) ac argaeledd capasiti cynaliadwy ac ymatebol yn y gymuned.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, **Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynol a Chymuned – Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi**, 2010

¹¹ Llywodraeth Cymru, **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**, 2011

Mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau penodol i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'n hyfforddi staff ar y broses ryddhau. Er hynny, mae lle i gynyddu hyder y staff fel eu bod yn rhyddhau cleifion yn brydlon


Mae adnoddau amlddisgyblaethol pwrpasol ar waith yn yr ysbytai i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion, ond nid ydynt ond yn weithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener

Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm rhyddhau ym mhob un o'r pedwar ysbyty cyffredinol dosbarth, ond nid yw'r rhain ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae eu dull o ymarfer yn amrywio ar draws yr ysbytai

- 55 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a di-dor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.
- 56 Gofynnwyd am wybodaeth gan pob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn cynnal un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa yn unig, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achosion rhyddhau syml a chymhleth.
- 57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu gwasanaeth cyswllt rhyddhau ar wahân (tîm rhyddhau) ym mhob un o'r pedwar prif ysbyty o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig. Yr oriau gweithredu yw:
- Ysbyty Treforys – 8am tan 4pm
 - Ysbyty Castell-nedd Port Talbot – 9am tan 5pm
 - Ysbyty Singleton – 8.30am tan 4.30pm.
 - Ysbyty Tywysoges Cymru – 9am tan 5pm, gyda darpariaeth tan 8pm ar dri diwrnod yr wythnos.
- 58 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod heriau wrth ryddhau cleifion ar y penwythnos yn achosi mwy o straen ar y system, ond nad yw gwasanaethau y mae achosion rhyddhau cymhleth yn ddibynnol arnynt, ee y gwasanaethau cymdeithasol, ar gael ar y penwythnos ychwaith.
- 59 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn **Nangosyn 6** gwelir y gwahanol broffesiynau o fewn timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Dengys y data fod llai na hanner y timau yn amlddisgyblaethol a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u harwain gan nyrsys. Mae timau cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint rhwng dau aelod staff cywerth ag amser llawn (CALI) a 29 aelod o staff CALI, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty. Roedd y timau'n cynnwys saith aelod CALI o staff ar gyfartaledd.

Dangosyn 6: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrannwyd i dimau cyswllt rhyddhau ar 30 Medi 2016

Staff proffesiynol yn y tîm



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017.¹²

60 Mae Cyfarwyddwyr Nyrso yn gyfrifol am oruchwylio'r tîm rhyddhau yn eu hysbyty perthynol. Bydd pob tîm rhyddhau cleifion yn gweithredu'n wahanol y naill oddi wrth y llall. Yn **Nangosyn 7** ceir crynodeb o drefniadau rheoli, cymysgedd staff a chyfrifoldebau pob tîm rhyddhau cleifion.

¹² Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu timau cyswllt rhyddhau. Mae tri bwrdd iechyd – Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr – yn gweithredu timau ar wahân ar gyfer pob safle ysbyty. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth dimau cyswllt rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn. Mae'r aelodau eraill o staff yn cynnwys staff gweinyddol a fferyllwyr, er enghraifft.

Dangosyn 7: Trefniadau rheoli tîm rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a chyfansoddiad y tîm yn Ysbyty Treforys.

Trefniadau rheoli a chyfansoddiad y tîm rhyddhau cleifion	
Ysbyty Treforys	
Rheoli Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> • Drwy Dîm Gofal Brys a Gweithrediadau Ysbyty ar gyfer yr Ysbyty cyfan
Cymysgedd y staff	<ul style="list-style-type: none"> • 2.0 o Nyrsys Cyswllt Rhyddhau CALI. • Ariennir 1.0 Nyrs Gyswllt Rhyddhau CALI ychwanegol ar y cyd gan Ysbyty Treforys a'r Uned Gyflawni Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol i gefnogi proses o 'dynnu cleifion' o'r ysbyty i wasanaethau ailalluogi cymunedol yn Abertawe. • Cydleoli â gweithwyr cymdeithasol.
Arbenigeddau a drafodir	<ul style="list-style-type: none"> • Pob arbenigedd
Y math o achosion rhyddhau o'r ysbyty a reolir neu a gydgyssylltir	<ul style="list-style-type: none"> • Yn rheoli rhai o'r achosion rhyddhau mwyaf cymhleth
Ysbyty Castell-nedd Port Talbot	
Rheoli Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> • Drwy'r Pennaeth Llif Cleifion, yr Uwch Fetron
Cymysgedd y staff	<ul style="list-style-type: none"> • 3.0 o Nyrsys Cyswllt Rhyddhau CALI
Arbenigeddau a drafodir	<ul style="list-style-type: none"> • Yn trafod y pedair ward henoed meddygol/gofal i gleifion oedrannus (ac eithrio'r ward niwro-adsefydlu)
Y math o achosion rhyddhau o'r ysbyty neu a reolir neu a gydgyssylltir gan y tîm rhyddhau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rheoli'r holl achosion rhyddhau o'r ysbyty cymhleth
Ysbyty Tywysoges Cymru	
Rheoli Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> • Drwy Bennaeth Uwch Feddyg Llif y Claf
Cymysgedd y staff	<ul style="list-style-type: none"> • 3.0 o Nyrsys Cyswllt Rhyddhau CALI – pob un wedi'i neilltuo i nifer o wardiau. • 1.6 Cynorthwydd/Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd CALI
Arbenigeddau a drafodir	<ul style="list-style-type: none"> • Pob arbenigedd ar wahân i bediatreg
Y math o achosion rhyddhau o'r ysbyty neu a reolir neu a gydgyssylltir gan y tîm rhyddhau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rheoli'r holl achosion rhyddhau o'r ysbyty cymhleth
Ysbyty Singleton	
Rheoli Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> • Drwy'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Llif Cleifion
Cymysgedd y staff	<ul style="list-style-type: none"> • 1.4 o Nyrsys Cyswllt Rhyddhau CALI • 2.8 Cynorthwydd/Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd CALI
Arbenigeddau a drafodir	<ul style="list-style-type: none"> • Pob arbenigedd
Y math o achosion rhyddhau o'r ysbyty neu a reolir neu a gydgyssylltir gan y tîm rhyddhau	<ul style="list-style-type: none"> • Yn rheoli achosion rhyddhau o'r ysbyty o natur syml a chymhleth

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017.

- 61 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym mai'r her oedd ystyried sut i wneud y defnydd gorau o dimau rhyddhau er mwyn hwyluso'r broses honno, ond heb i staff ward golli eu sgiliau. Cyfanswm cost 13 o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau ledled Cymru oedd £2.9 miliwn, ac roedd costau'r timau unigol yn amrywio rhwng £43,000 a £692,000. O fewn y Bwrdd Iechyd, £515,000 oedd cost tri o'r pedwar tîm cyswllt rhyddhau rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, o gymharu â'r gost gyfartalog o £244,000 fesul tîm cyswllt rhyddhau yng Nghymru.
- 62 Yn ogystal â'r buddsoddiadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r CGI (gweler [paragraffau 29 i 35](#)) a'r camau i ymateb i bwysau'r gaeaf (gweler [Dangosyn 2](#)), penododd y Bwrdd Iechyd lywyr a chydgyssylltwyr ychwanegol ar gyfer llif cleifion yn nhymor yr hydref 2016. Mae'r aelodau ychwanegol o staff yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys i ailgyfeirio achosion nad ydynt yn achosion brys i wasanaethau eraill mwy priodol.
- 63 Oherwydd bylchau yn yr wybodaeth am gostau staffio, gweithgarwch a gwasanaethau, mae'n anodd sefydlu gwerth cymharol am arian y timau cyswllt rhyddhau oddi mewn i sefydliadau'r GIG/rhwng gwahanol sefydliadau'r GIG. Dim ond pedwar o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau ar draws Cymru a ddarparodd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y pedwar tîm hwn, buom yn cymharu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau â nifer yr aelodau staff CALI. Roedd nifer yr achosion o ryddhau fesul aelod staff CALI yn amrywio rhwng 50 a 250; ar gyfartaledd, roedd 117 o gleifion yn cael eu rhyddhau fesul aelod staff CALI. Rheolodd tîm Castell-nedd Port Talbot 50 o achosion rhyddhau fesul aelod staff CALI, tra llwyddodd tîm Tywysoges Cymru i reoli 72 o achosion rhyddhau fesul aelod staff CALI. Nid oes gennym wybodaeth am nifer yr achosion ryddhau a reolwyd gan y ddau dîm cyswllt rhyddhau arall fyddai'n ein galluogi i gyflwyno cymhariaeth lawn.
- 64 Gwerthusodd neu adolygodd tri o'r ysbytai waith eu timau rhyddhau yn 2016. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd Ysbyty Singleton wedi adolygu ei wasanaeth gan nad oedd y gwasanaeth ond wedi bod yn weithredol ers chwe mis.
- 65 Gofynnwyd i dimau cyswllt rhyddhau ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau. Yn [Atodiad 4](#) gwelir crynodeb o'r mathau o weithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Yn y Bwrdd Iechyd:
- Dywedodd Gwasanaeth Cyswllt Rhyddhau Ysbyty Treforys wrthym eu bod yn aml yn cyflawni'r holl weithgareddau a restrir (gweler [Atodiad 4](#)), ac eithrio cynnig cyngor ar opsiynau tai a chyfeirio teuluoedd i gael cyngor ynghylch parhau i fyw'n annibynnol gartref, a oedd yn weithgareddau y byddent weithiau'n eu cyflawni;
 - Dywedodd Gwasanaeth Cyswllt Rhyddhau Castell-nedd Port Talbot wrthym eu bod bob amser neu'n aml yn cyflawni'r holl weithgareddau, ac eithrio rhoi cyngor ar opsiynau tai, nad oeddent fyth yn ei gyflawni;
 - Dywedodd Gwasanaeth Cyswllt Rhyddhau Tywysoges Cymru eu bod bob amser neu'n aml yn cyflawni pob un o'r gweithgareddau, ac eithrio cynnig cyngor ar opsiynau tai, a oedd yn weithgaredd yr oeddent weithiau'n ei gyflawni; a
 - Dywedodd Gwasanaeth Cyswllt Rhyddhau Ysbyty Singleton eu bod bob amser yn cyflawni'r holl weithgareddau.


66 Mae ystod y gweithgareddau a gyflawnir gan y gwasanaethau rhyddhau yn cymharu'n ffafriol â'n canfyddiadau ledled Cymru.

Mae lolfeydd rhyddhau ar gael yn Ysbytai Treforys a Thywysoges Cymru, ond nid ydynt ond yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener

- 67 Gall lolfa ryddhau hefyd gefnogi cynlluniau rhyddhau cleifion a llif cleifion effeithiol drwy gynnig amgylchedd addas lle gall cleifion ddisgwyl i berthnasau, neu drafnidiaeth yr ysbyty, eu codi. Bydd hynny'n golygu bod gwelyau'n cael eu rhyddhau'n brydlon i dderbyn cleifion eraill. Bydd rhai cleifion hefyd yn cael eu hanfon i'r lolfa wrth ddisgwyl i'r fferyllfa ddsbarthu eu meddyginiaeth.
- 68 Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai aciwt. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd gan y lolfeydd rhyddhau y capasiti i gefnogi 192 o gleifion oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau; capasiti cyfartalog pob lolfa ryddhau oedd 11. Ar draws Cymru, mae lolfeydd rhyddhau ar agor am 8 i 12 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ynddynt fel arfer. Ceir hefyd gyfleusterau bwyd a thoiledau i'r cleifion.
- 69 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu lolfa ryddhau yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'r ddwy lolfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gŵyl y banc). Mae lolfa ryddhau Ysbyty Treforys ar agor o 8am tan 6pm tra bo lolfa ryddhau Ysbyty Tywysoges Cymru ar agor o 8am tan 7pm. Gall y lolfeydd rhyddhau gynnwys 12 claf yr un. Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, cafodd ychydig llai na 1,900 o gleifion eu rheoli drwy lolfa ryddhau Ysbyty Treforys, ac fe gafodd ychydig dros 1,900 o gleifion eu rheoli drwy lolfa ryddhau Tywysoges Cymru.
- 70 Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ynghylch trefniadau staffio, costau a gweithgarwch y lolfeydd rhyddhau. Roedd yr wybodaeth gan gyrrff y GIG yn fwy cyflawn na gwybodaeth y timau cyswllt rhyddhau. Mae nifer y staff a ddefnyddir ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai yn amrywio rhwng llai nag un aelod staff CALI a phum aelod staff CALI; y cyfartaledd oedd tri aelod staff CALI. Cyfanswm cost 12 o'r 14 o lolfeydd rhyddhau oedd £1 miliwn rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, ac roedd costau gwasanaethau unigol yn amrywio rhwng £25,000 a £139,000. O fewn y Bwrdd Iechyd, cost lolfa ryddhau Ysbyty Treforys oedd £139,000 a chost lolfa ryddhau Ysbyty Tywysoges Cymru oedd £126,000 o gymharu â chyfartaledd Cymru o £86,600.
- 71 Yn **Nangosyn 8**, gwelir y gost am bob claf a ryddhawyd ac a gefnogwyd drwy'r lolfeydd rhyddhau, sy'n amrywio rhwng £12 a £74 fesul claf. £74 oedd y gost fesul claf yn Ysbyty Treforys, £65 oedd y gost yn Ysbyty Tywysoges Cymru, o gymharu â'r gost gyfartalog o £28.50.

Dangosyn 8: cymhariaeth o'r gost am bob claf a ryddhawyd ac a reolwyd gan lolfeydd rhyddhau unigol rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Lolfa rhyddhau ysbytai




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017¹³

72 Unwaith eto, buom yn cymharu nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau, ac a gefnogwyd drwy'r lolfeydd rhyddhau, â nifer yr aelodau staff CALI. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan naw o'r 14 o lolfeydd rhyddhau, roedd nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff CALI yn amrywio rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALI hyd at ychydig dros 2,000 fesul aelod staff CALI (Dangosyn 9). Yn Ysbyty Treforys, cefnogodd y lolfa ryddhau 391 o gleifion fesul aelod staff CALI o gymharu â 482 yn Ysbyty Tywysoges Cymru; cyfartaledd Cymru oedd 1,000 o gleifion fesul aelod staff CALI. Ni allwn gyfrifo'r ffigurau ar gyfer Ysbyty Tywysoges Cymru.

¹³ Cawsom wybodaeth oddi wrth 14 o lolfeydd rhyddhau, ond dim ond 9 ffurflen a ddychwelwyd oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gymharu'r gost fesul claf a ryddhawyd o'r lolfa ryddhau.

Dangosyn 9: nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALI), ac a gefnogwyd drwy lolfeydd rhyddhau ysbytai rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Lolfa rhyddhau ysbytai



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau mewn ysbytai, 2017 ([Gweler Troednodyn 13](#))

73 Er nad yw Ysbyty Singleton nac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu lolfeydd rhyddhau ffurfiol (hy, ac ynddynt staff penodol), maent yn gweithredu lolfeydd anffurfiol drwy ddefnyddio gofod sydd ar gael ar un neu fwy o wardiau. Ni fydd y rhain ond yn weithredol os oes digon o staff ar gael ar y wardiau hynny i gefnogi unrhyw gleifion sy'n disgwyl cael eu rhyddhau.

Mae hyfforddiant staff wedi cael ei gyflwyno i gynyddu ymwybyddiaeth o bolisiâu a llwybrau newydd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo gynyddu hyder staff er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon

74 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. I ategu hyn dylid sicrhau ymwybyddiaeth glir o bolisiâu a llwybrau, mynediad at lefelau hyfforddi priodol, ac ymwybyddiaeth dda o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi prosesau rhyddhau.

Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu i'r staff ar bolisïau a llwybrau rhyddhau newydd

- 75 Mae hyfforddiant gloywi wedi cael ei ddarparu i staff ar gynllunio i ryddhau cleifion, er mwyn tynnu eu sylw at newidiadau o fewn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i adolygiadau diweddar o'r trefniadau ar gyfer hynny, ond ni all y Bwrdd Iechyd gadarnhau sawl aelod staff fu'n bresennol yn yr hyfforddiant hwnnw.
- 76 Yn rhan o'n gwaith archwilio, cyfarfuom â grŵp o staff nyrsio i drafod ystod o faterion yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion. Dywedwyd y bu mesurau i wella gweithdrefnau uwchgyfeirio yn gadarnhaol. Roeddent yn deall yn glir at bwy y dylent uwchgyfeirio materion. Mae'r ffaith bod gan bob ysbyty uwch Reolwr Llif Cleifion ar gael bob dydd o'r wythnos, wedi'i gefnogi gan reolwr ar alwad o gymorth yn hyn o beth.
- 77 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o raglenni cynefino, ac o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisïau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddelfrydol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac/neu ar sail aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fusnes i bawb.
- 78 Yn **Nangosyn 10** gwelir mai ond hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau yn rhaglenni cynefino'r nyrsys, ac sydd yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym nad ydynt yn cynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o'u hyfforddiant cynefino ar gyfer staff nyrsio, meddygol, ffisiotherapi neu therapi galwedigaethol. Fodd bynnag, darperir hyfforddiant gloywi ar y broses ryddhau bob blwyddyn i staff nyrsio a meddygol, a phob yn ail flwyddyn i staff ffisiotherapi a therapi galwedigaethol.

Dangosyn 10: argaeledd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer staff nyrsio

Sefydliad y GIG	Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys yn rhaglenni cynefino dechreuwy'r newydd	Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd ¹
Abertawe Bro Morgannwg	Nac ydy	Ydy
Aneurin Bevan	Nac ydy	Nac ydy
(ysbytai) Betsi Cadwaladr		
• Ysbyty Gwynedd	Ydy	Ydy
• Wrecsam Maelor	Ydy	Ydy
• Glan Clwyd	Ydy	Nac ydy
Caerdydd a'r Fro	Nac ydy	Ydy
Cwm Taf	Nac ydy	Ydy
Hywel Dda (timau sirol)		
• Sir Benfro	Ydy	Nac ydy
• Ceredigion	Nac ydy	Nac ydy
• Sir Gaerfyrddin	Nac ydy	Ydy
Powys	Nac ydy	Nac ydy
• Felindre	Ydy	Ydy

Sefydliad y GIG	Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys yn rhaglenni cynefino dechreuwyr newydd	Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd ¹
¹ Hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu o leiaf bob blwyddyn, neu ddwywaith y flwyddyn i'r staff nyrsio		

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017 ([Gweler Troednodyn 8](#))

79 Fel arfer, Nyrsys Cyswllt Rhyddhau sydd yn arwain hyfforddiant ar y broses ryddhau. Mewn hyfforddiant a gynhaliwyd ers adolygiad Uned Gyflawni GIG Cymru yn 2016, amlygwyd canfyddiadau'r adolygiad hwnnw, gan gynnwys astudiaethau achos. Cefnogwyd yr hyfforddiant hwnnw hefyd gan Uned Gyflawni GIG Cymru. Mae'r hyfforddiant wedi cynnwys diwygiadau i bolisïau, fel y Polisi Rhyddhau a'r Polisi Dewis Llety. Mae croeso i staff o sefydliadau eraill a chanddynt ran yn y broses ryddhau fynychu digwyddiadau hyfforddiant rhyddhau cleifion. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu dweud wrthym faint o staff y Bwrdd Iechyd fu'n bresennol yn yr hyfforddiant mwyaf diweddar.

Ceir mwy o ffocws ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae rhai newidiadau cadarnhaol wedi'u cyflwyno, ond ceir rhwystrau o hyd sy'n atal rhyddhau cleifion yn brydlon, ac mae angen mynd i'r afael â hyder y staff

80 Yn ei adolygiad, canfu'r Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad am ddiwylliant 'cwtsh'¹⁴ a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. Yn holl adroddiadau Uned Gyflawni GIG Cymru ar gyfer pob un o'r pedwar ysbyty, amlygwyd enghreifftiau lle'r oedd timau amlddisgyblaeth (nyrsys a gweithwyr cymdeithasol yn bennaf) yn disgwyl nes iddynt ystyried bod cleifion yn feddygol iach cyn dechrau cynllunio i'w rhyddhau. Golygai hynny fod rhai cleifion yn aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy heb fod angen.

¹⁴ Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant 'cwtsh' lle'r oedd rhai aelodau staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

- 81 Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd rhai aelodau o staff ward wrthym eu bod yn parhau i'w chael hi'n anodd cael amser i reoli'r broses ryddhau. Gan fod timau rhyddhau'n gallu ymdrin â chynifer o achosion rhyddhau, dywedodd rhai aelodau o staff ward y gall hynny arwain at ddadrymuso neu golli sgiliau ymhlith staff ward. Er bod staff nyrsio yn teimlo bod cleifion yn barod i'w rhyddhau, dywedodd rhai aelodau staff ward fod ffactorau allanol yn oedi'r broses honno, gan gynnwys:
- yn achos cleifion a drosglwyddir o ysbyty arall, fod y broses ryddhau heb ei chychwyn yn yr ysbyty cyntaf;
 - bod rhai meddygon ymgynghorol yn gyndyn o gymryd risg, gan oedi'r broses ryddhau;
 - nad oedd meddygon ymgynghorol ar gael ar y penwythnosau i gymeradwyo bod cleifion yn barod i'w rhyddhau; ac
 - er bod y trefniadau gwaith a chyfathrebu rhwng staff nyrsio a gweithwyr cymdeithasol ar y cyfan, mynegodd rhai o'r staff nyrsio rwystredigaeth nad oedd gweithwyr cymdeithasol yn fodlon cytuno ar ddyddiad asesu nes bo'r claf yn feddygol iach i'w ryddhau. Mae hyn yn creu oedi cyn yr asesiad, ac oedi pellach wrth ddisgwyl i weithredu camau fel bo modd rhyddhau'r claf.
- 82 Amlygodd Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd fod hyder y staff yn un o'r heriau a oedd ganddynt i'w goresgyn yn 2017-18. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i godi ymwybyddiaeth ymhlith y staff fel nad ydynt yn osgoi risg yn ormodol, ac er mwyn cymryd amser i ddeall yr hyn sy'n bwysig i gleifion. Fodd bynnag, mae staff yn parhau i bryderu y byddant yn gwneud y penderfyniad anghywir, ac mae rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai rheswm posib am hynny yw bod angen cefnogaeth ac anogaeth bellach arnynt. Mae gan y timau llif cleifion rym i herio penderfyniadau i gadw cleifion yn yr ysbyty os yw'n briodol i'w rhyddhau.
- 83 Canfu Uned Gyflawni GIG Cymru nad oedd rhyw lawer o dystiolaeth yng nghofnodion cleifion fod staff wedi cynnal trafodaeth â hwy ynghylch disgwyliadau rhyddhau. Ni nodwyd hyn fel ffactor yn adroddiadau Uned Gyflawni GIG Cymru ar y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, cyfeiriai'r adroddiadau hynny at y ffaith nad oedd staff fel arfer yn nodi a oedd achos rhyddhau yn debygol o fod yn syml neu'n gymhleth yn fuan yn ystod arhosiad y claf. Gall peidio gwneud hynny arwain at oedi wrth drafod disgwyliadau ynghylch canlyniadau â chleifion.
- 84 Ers adolygiad Uned Gyflawni GIG Cymru, mae'r disgwyliad i gofnodi amcan y dyddiad rhyddhau a'i ddiweddarau'n ddyddiol wedi'i nodi ym mholisi rhyddhau diwygiedig y Bwrdd Iechyd. Dywedodd staff ward wrthym eu bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â chleifion, a gofalwyr a pherthnasau lle bo'n briodol, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch y disgwyliadau o ran rhyddhau. Dywedodd y Bwrdd Iechyd y dylid cychwyn trafodaethau ynghylch rhyddhau yn fuan â chleifion. Nodir yn y polisi rhyddhau yr ystyrir bod cynnwys cleifion a gofalwyr yn elfen hollbwysig wrth gynllunio i ryddhau a rhoi dewis i'r claf. Mae gwybodaeth am gleifion a pherthnasau ar draws y Bwrdd Iechyd wedi cael ei hailddylunio er mwyn cynorthwyo'r staff ward i weithredu'r polisi.
- 85 Yn 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd yn annog wardiau i weithredu'r fenter 'End Pyjama Paralysis'. Mae'r fenter yn canolbwyntio ar annog cleifion mewn ysbytai, lle bo modd, i roi'r gorau i wisgo eu pyjamas neu eu gwn nos pan na fydd angen iddynt wneud hynny. Y rheswm am hyn yw bod gwisgo pyjamas yn gwneud i lawer o gleifion teimlo fel pe baent yn salach, gan arafu'r broses wella.

Mae gwybodaeth am wasanaethau cymunedol ar gael, ond mae gwahaniaethau rhwng ardal pob awdurdod lleol yn achosi rhywfaint o ddrwsych. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth staff o'r gwasanaethau sydd ar gael ym mhob ardal

86 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Dylai cyrff iechyd ddal gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i gyrff iechyd pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. Yn **Nangosyn 11** gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin.

Dangosyn 11: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol

	Ystod y gwasanaethau	Argaeledd gwasanaethau	Meini Prawf Cymhwysra	Y broses atgyfeirio	Amser aros ar gyfer asesiad anghenion	Amser aros i wasanaethau gychwyn
Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd ei hun	8	8	9	9	4	4
Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG	3	3	3	3	2	2
Gwasanaethau gofal cymdeithasol	9	9	9	10	6	3
Y Trydydd Sector	10	8	10	8	3	2
Opsiynau tai	4	2	4	6	2	2
Y Sector annibynnol ee, gwelyau mewn cartrefi gofal	7	6	9	9	2	2

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (**Gweler Troednodyn 8**)

- 87 O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r Uned Gyflawni Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cynnwys yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector annibynnol (cartrefi gofal). Mae'r wybodaeth am bob gwasanaeth yn cynnwys argaeledd, y meini prawf cymhwysra a'r broses atgyfeirio. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau'n rheolaidd (rhai rhannau'n ddyddiol, rhannau eraill yn wythnosol). Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn casglu gwybodaeth am y canlynol: amcan o'r amser aros am asesiad neu i ddechrau darparu gwasanaeth, gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG na pha addasiadau tai sydd ar gael. Nid oes dim o'r data ar gael yn electronig, ond dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym eu bod y gobeithio y bydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru¹⁵ o gymorth i sicrhau bod rhan helaeth o'r wybodaeth hon ar gael yn electronig mewn un man.
- 88 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod gan eu timau rhyddhau ymwybyddiaeth dda o'r ystod o wasanaethau cymunedol sydd ar gael, a'u bod yn gallu rhoi cymorth ac arweiniad i staff ward sydd yn llai hyddysg yn y gwasanaethau sydd ar gael. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o staff y buom yn siarad â hwy y gall gwahaniaethau rhwng yr ystod o wasanaethau cymunedol sydd ar gael ar draws y Bwrdd Iechyd ei gwneud hi'n anodd i staff ward ddeall pa gymorth a allai fod ar gael i glaf, yn dibynnu ar leoliad ei gartref. Anogir staff ysbyty i atgyfeirio anghenion rhyddhau cleifion i'r PMC, fel bo modd i'r Tîm Adnoddau Cymunedol baru anghenion cleifion unigol â gwasanaethau cymunedol.
- 89 Gofynnwyd i staff ward faint yr oeddent yn ei wybod am yr ystod o wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. Dywedodd staff ward wrthym am sesiynau 'sgwrs gyflym' a gynhaliwyd yn 2016, a oedd yn cynnwys staff o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, staff gwasanaethau ysbyty a staff gwasanaethau cymunedol. Y nod oedd gwella'r gyd-ddealltwriaeth o newidiadau i lwybrau, modelau gofal a'r ystod o wasanaethau cymunedol a oedd ar gael.

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gynlluniau i ryddhau cleifion yn effeithiol ar y cyfan

Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad mewn modd strategol a gweithredol

- 90 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.
- 91 Nodir cyfrifoldebau gweithredol dros gynllunio i ryddhau cleifion yn y polisi rhyddhau. Cyfrifoldeb holl staff y ward yw cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae mecanweithiau uwchgyfeirio ar gael i'w defnyddio gan holl staff y ward. Nodir y rhain yn y Polisi Rhyddhau a'r Polisi Rheoli Diogelwch a Rowndiau'r Bwrdd Llif. Cefnogir timau ward gan Dîm Rhyddhau'r Uned Gyflawni.

¹⁵ System gyfrifiadurol yw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae'n cael ei chyflwyno yng Nghymru i'w defnyddio gan bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol. Bydd y system yn galluogi staff sy'n ymwneud â gwaith gofal cymdeithasol ac iechyd gofnodi a chyrchu gwybodaeth am y driniaeth y mae cleifion yn ei derbyn gan y gwahanol wasanaethau.

- 92 Mae Prif Nyrsys yn gyfrifol am sicrhau bod y rowndiau ward yn cael eu cynnal yn ddyddiol o leiaf (gweler [troednodyn 5](#)). Nodir yn y Polisi Rheoli Rowndiau'r Bwrdd Diogelwch a Llif Cleifion y dylai'r gweithwyr sy'n bresennol ar y rowndiau fod yn amlddisgyblaethol er mwyn canolbwyntio ar y profion, yr asesiadau a'r mewnbwn sydd eu hangen gan bob claf. Edrychir yn y cyfarfod ar y camau y gellid eu cymryd i ryddhau gwely drwy ymdrin â rhwystrau. Caiff amcan o'r dyddiad rhyddhau, a'r dyddiad pan fo'r claf yn ddigon iach i'w ryddhau, eu cofnodi a'u diweddarau yn ddyddiol i bob claf, Cofnodir yr wybodaeth ar fwrdd gwyn yn y ward fel bod y staff yn canolbwyntio ar y dyddiadau rhyddhau a amcenir i bob claf. Staff ward sy'n arwain ac/neu'r timau rhyddhau cleifion sy'n arwain y broses ryddhau.
- 93 Bydd pob ysbyty yn cynnal cyfarfodydd rheoli gwelyau ddwywaith y dydd o leiaf er mwyn canfod faint o welyau sydd yn debygol o ddod yn rhydd y diwrnod hwnnw a thrafod unrhyw broblemau. Mae rheolwyr gwelyau ac aelodau'r tîm llif cleifion yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl uwchgyfeirio materion yn brydlon i Nyrsys Arweiniol a, le bo'n briodol, i Gyfarwyddwr Nyrsio, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth yr Uned Gyflawni. Mae prosesau uwchgyfeirio ar waith i symud ymlaen ag achosion unigol. Dywedodd staff wrthym eu bod o'r farn fod y trefniadau atebolrwydd ym mhob Ysbyty yn glir.
- 94 Bydd pob ysbyty yn cynnal cyfarfodydd sbardun wythnosol â'r awdurdod lleol, a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol. Trafodir perfformiad yn y cyfarfodydd hynny, er mwyn rhoi cefnogaeth i oresgyn problemau'n gysylltiedig â llwybrau a nodwyd mewn ysbytai cymunedol ac/neu wasanaethau cymunedol.
- 95 Mae'r grwpiau canlynol yn trafod cynllunio i ryddhau cleifion o fewn y Bwrdd Iechyd:
- Bwrdd Cyflenwi Cefnogi Gofal Heb ei Drefnu – yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Nyrsio, Cyfarwyddwr Unedau Cyflawni yr ysbytai (yn cynrychioli Unedau Cyflawni yr holl ysbytai), Cyfarwyddwr yr Uned Gyflawni ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Gwybodeg, y Gwasanaeth 111, meddygon teulu ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru; a
 - Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol – yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol y tri awdurdod lleol, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, Cyfarwyddwyr o Unedau Cyflawni'r ysbytai, Uned Gyflawni Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol, a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, a chynrychiolwyr o'r Trydydd Sector.
- 96 Yn 2017, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Ffrwd Waith Ailddylunio Capasiti yn rhan o rhaglen y Bwrdd Iechyd i ganfod arbedion ariannol gan wella ansawdd gwasanaethau, neu gynnal yr ansawdd hwnnw o leiaf. Drwy'r gwaith a gyflawnwyd i adolygu capasiti gwasanaethau cymunedol, nodwyd bod cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd fyrhau arosiadau rhai cleifion a rhyddhau mwy o ddiwrnodiau gwely. Mae Ffrwd Waith Ailddylunio Capasiti wedi cael ei sefydlu er mwyn rheoli rhaglen i fyrhau arosiadau a chanfod mwy o gyfleoedd i gynyddu capasiti.
- 97 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod adroddiadau ar berfformiad gofal heb ei drefnu a llif cleifion fel arfer yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ddwywaith y flwyddyn. Caiff data cymunedol hefyd eu hadolygu ar y tri Chyd-fwrdd Partneriaeth, a'u bwydo i'r grŵp Cynllunio a Gwasanaethau Cymunedol.

- 98 I gydnabod na cheir pwyllgor i ystyried yr holl faterion sy'n gysylltiedig â pherfformiad, aeth y Bwrdd Iechyd ati i ffurfio pwyllgor bwrdd newydd yn 2017, sef y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn 2017, ac mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn y Bwrdd Iechyd i fireinio cylch gorchwyl holl bwyllgorau'r bwrdd er mwyn sicrhau na cheir unrhyw achosion o orgyffwrdd neu fylchau yn y meysydd y mae pob pwyllgor yn gyfrifol amdanynt. Disgwylir i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad dderbyn adroddiadau ar berfformiad yn gysylltiedig â rhyddhau a llif cleifion cyn gynted ag y bydd diben y Pwyllgor wedi'i sefydlu'n llawn.
- 99 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. Canfu ein harolwg o aelodau bwrdd fod 12 o 15 o aelodau bwrdd (80%) a ymatebodd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cynlluniau rhyddhau. Gellir cymharu hyn â 56% ar draws Cymru.
- 100 Mae cynlluniau rhyddhau da yn dibynnu ar allu sefydliadau partner i gydweithio, yn ogystal â her fewnol, felly dylai trefniadau i graffu ar y cyd hefyd fod wedi'u sefydlu. Drwy'r gwaith a gyflawnwyd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol, mae mesurau ac amcanion perfformiad wedi cael eu cytuno ar y cyd i bob ardal awdurdod lleol yn gysylltiedig â'r llif ar draws yr holl system Iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd perfformiad yn cael ei fonitro'n fisol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol. Mae Partneriaeth Bae'r Gorllewin, y Bwrdd Iechyd, a phob awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb dros elfennau o'r rhaglen waith.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o wybodaeth i gefnogi gwaith craffu amserol ar lif cleifion, ond gallai gynnwys data sy'n ymwneud yn fwy penodol â chynllunio i ryddhau cleifion wrth adrodd gerbron pwyllgorau'r Bwrdd

- 101 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, ar gyfer sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly ceir monitro, adrodd a chraffu rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.
- 102 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.
- 103 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn edrych ar y math o wybodaeth am berfformiad a adroddir wrth grwpiau gweithredol a'r Bwrdd neu ei is-bwyllgorau sydd o gymorth i fwrw goleuni ar berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. **Yn Nangosyn 12** gwelir y dangosyddion perfformiad a'r diweddariadau a adroddwyd wrth y Bwrdd o fewn y Bwrdd Iechyd.

Dangosyn 12: ystod yr wybodaeth am berfformiad a adroddwyd wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ystod 2016-17

Cynllunio i ryddhau cleifion	Llif cleifion
<ul style="list-style-type: none"> Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth – iechyd meddwl (pob oed). Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth – ar wahân i iechyd meddwl (75+ oed). Canran y crynodebau rhyddhau a gwblhawyd. 	<ul style="list-style-type: none"> Canran y cleifion a oedd yn gorfod disgwyl dros awr i gael eu trosglwyddo o'r ambiwlans (0 yw'r targed). Canran y cleifion a oedd yn gorfod treulio 12 awr neu fwy mewn Adran Achosion Brys (0 yw'r targed). Canran y cleifion newydd nad oedd yn rhaid iddynt dreulio mwy na phedair awr mewn Adran Achosion Brys (95% yw'r targed ar gyfer nifer y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr mewn Adrannau Achosion Brys). Canran y cleifion y gohiriwyd eu triniaeth fwy nag unwaith, ac a dderbyniodd eu triniaeth wedi hynny cyn pen 14 diwrnod neu ar y dyddiad cyntaf a oedd yn gyfleus i'r claf. Nifer y codymau ymhlith cleifion mewnol. Nifer y llawdriniaethau wedi'u canslo.

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

- 104 Mae gan bob ward ddangosfwrdd electronig wrth law sy'n darparu data (a ddiweddarir bob 24 awr) ar berfformiad. Mae'r data yn cynnwys nifer y diwrnodiau gwely a gollwyd a nifer y cleifion sy'n disgwyl cael eu trosglwyddo.
- 105 Cesglir gwybodaeth am berfformiad mewn adroddiadau sy'n dangos beth yw'r duedd o ran perfformiad, ac sy'n cynnwys naratif cryno o berfformiad pob safle ysbyty a'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd, y camau sy'n cael eu cymryd ac unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r wybodaeth a gyflwynir gerbron pwyllgorau'r Bwrdd yn tueddu i gael ei chasglu ar raddfa'r Bwrdd Iechyd, er bod naratif cryno wedi'i gynnwys ynghylch safleoedd ysbyty unigol.
- 106 Mewn ymateb i'n harolwg aelodau bwrdd:
- Roedd 13 o 15 o aelodau bwrdd (87%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar lif cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 75%; ac
 - roedd 13 o'r 15 o aelodau bwrdd a ymatebodd (87%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn eu sefydliad, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 82%.

- 107 Dyma wybodaeth bellach a fyddai'n ddefnyddiol i ddeall perfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion yn arbennig, ond nad yw'n cael ei hadrodd i'r Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg;
- nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;
 - aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;
 - y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;
 - y ganran sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio; a
 - chanran yr achosion o ryddhau cyn pen 24 awr a 72 awr ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol iach'.
- 108 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa wybodaeth y gellid ei chasglu am eu systemau gweinyddu cleifion. Yn **Nangosyn 13** gwelir bod systemau gweinyddu cleifion y rhan fwyaf o sefydliadau yn gallu casglu ystod o ddata sydd o gymorth wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner ohonynt sydd yn cynnwys y gallu i gofnodi a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

Dangosyn 13: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau	Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol
Dyddiad rhyddhau disgwylidig	12
Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty	12
Amser rhyddhau o'r ysbyty	12
Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref preswyl, cartref gofal ac ati.	12
Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau	8
A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth	5

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (**Gweler Troednodyn 8**)


- 109 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn defnyddio dull electronig i gofnodi dyddiadau derbyn a rhyddhau, dyddiadau trosglwyddo a ragwelir, amcan o ddyddiadau rhyddhau a dyddiadau iach i ryddhau er mwyn cefnogi rheolaeth ar welyau a chynllunio i ryddhau cleifion.

Gwelir arwyddion o welliant mewn perfformiad o ran hyd arosiadau ac amseroedd aros mewn Adrannau Achosion Brys, ond mae angen gwneud mwy i leihau'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal

- 110 Cynhaliodd Uned Gyflawni GIG Cymru ei hadolygiad o waith cynllunio i ryddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2015. Yn ogystal â hynny, yn 2016 cynhaliodd yr Adain Archwilio Mewnol adolygiad er mwyn rhoi sicrwydd bod prosesau cynllunio i ryddhau wedi'u sefydlu ar draws safleoedd ysbyty o fewn y Bwrdd Iechyd. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd sawl cam i ymateb i ganfyddiadau'r adolygiadau hyn, gan gynnwys:
- buddsoddi mewn Timau Llif Cleifion ym mhob un o'r pedwar ysbyty. Bydd Timau Llif Cleifion yn edrych ar bob rhan o lwybr y claf er mwyn gwella effeithlonrwydd. Bydd pob un o'r timau rhyddhau cleifion naill ai'n gweithio gyda'r Timau Llif Cleifion, neu ochr yn ochr â hwy;
 - mae polisi llif SAFER wedi cael ei ddatblygu (gweler paragraff 24), ac yn cael ei ymwreiddio ar draws y Bwrdd Iechyd;
 - cafodd y Polisi Rhyddhau Cleifion a'r Polisi Dewis Llety eu diwygio yn 2016 (gweler paragraffau 39 a 40);
 - datblygu llwybrau ar raddfa'r Bwrdd Iechyd mewn rhai meysydd (hy, Hosbis yn y cartref);
 - defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig i wella gwasanaethau cymunedol er mwyn helpu i osgoi derbyniadau a rhyddhau cleifion ynghynt (gweler paragraffau 29 i 34);
 - cynnal gweithdai ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn hysbysu staff ynghylch y canfyddiadau, a rhoi hyfforddiant i'r staff ar y polisi a'r llwybrau rhyddhau diwygiedig; a
 - chymryd camau i sicrhau bod amcan o'r dyddiad rhyddhau, ac a ragwelir y bydd yr achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth, wedi'u cofnodi wrth dderbyn y claf, ac yn cael eu hadolygu drwy gydol ei arhosiad.
- 111 Yn **Nangosyn 14** gwelir bod nifer misol yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi amrywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a bod nifer yr achosion hynny ar gynnydd. Cafwyd cynnydd o 14% yng nghyfanswm yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio'r rhai sydd mewn cyfleusterau iechyd meddwl) o 535 yn 2015-16 i 610 yn 2016-17, ac roedd cyfran y cleifion a wynebai oed o saith wythnos neu fwy ar gynnydd (**Dangosyn 15**).

Dangosyn 14: tueddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg rhwng mis Ebrill 2015 a mis Medi 2017

Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal
(heb gynnwys cyfleusterau iechyd meddwl)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o [gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru](#), Mai 2017


Dangosyn 15: newid yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2017-18

Hyd yr oedi	Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal		
	2015-16 (Ebrill – Mawrth)	2016-17 (Ebrill – Mawrth)	2017-18 (Ebrill – Medi)
0-3 wythnos	160	146	96
4-6 wythnos	219	233	105
7-12 wythnos	96	140	64
13-26 wythnos	50	77	34
26+ wythnos	10	14	5
Cyfanswm yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal	535	610	304

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o [gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru](#), Mai 2017

112 Ni ddylai unrhyw glaf aros dros 12 awr mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys, i gael ei dderbyn, ei drosglwyddo neu ei ryddhau. Pan fydd cleifion yn aros am 12 awr neu fwy mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys, mae hynny'n aml yn arwydd o broblemau yn gysylltiedig â llif cleifion. Mae **Dangosyn 16** yn cymharu cyfran y cleifion sy'n disgwyl am 12 awr neu fwy yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y Bwrdd Iechyd â chyfartaledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ni wnaeth adrannau Damweiniau ac Achosion Brys Treforys na Thywysoges Cymru gyrraedd y targed o sicrhau nad oedd yr un claf yn gorfod aros 12 awr neu fwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd perfformiad ysbyty Treforys yn waeth i raddau cymharol. Ceir arwyddion o welliant er bod ymweliadau ag adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wedi cynyddu rhywfaint (2%) rhwng 2015-16 a 2016-17. Cafwyd gostyngiad o 14% yn nifer y cleifion a oedd yn aros 12 awr neu fwy ym mhrif adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y Bwrdd Iechyd rhwng 2015-16 a 2016-17, o gymharu â chynnydd o 23% ledled Cymru.

Dangosyn 16: cyfran y cleifion a arhosodd dros 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan rhwng mis Ebrill 2015 a mis Medi 2017 o gymharu â chyfartaledd y prif adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru **o'r Amser a Dreulir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Gwybodaeth Reoli Fiol**, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

113 Disgwylir i gyrrf y GIG leihau hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mesurir perfformiad ar sail cyfnod treigl o 12 mis (mae'r perfformiad a adroddir yn unrhyw fis felly'n cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, y hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw). Yn **Nangosyn 17**, gwelir yr hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau meddygol brys o fewn y Bwrdd Iechyd, gyda'r hyd arhosiad cyfartalog fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Dangosyn 17: tueddiadau'r hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) ar sail cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer derbyniadau brys ar gyfer wardiau meddygol cyfun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017

Hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) 12 mis treigl yn achos derbyniadau brys ar gyfer meddygaeth gyfunol



Sylwer nad yw echel Y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata effeithlonrwydd GIG Cymru gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

Atodiad 1

Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd

Dangosyn 18: statws CAG¹⁶ asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton¹⁷

Proses ryddhau	Arferion disgwylledig	Ysbyty Treforys	Ysbyty Tywysoges Cymru	Ysbyty Singleton	Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
Cam 1 Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion	Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn.				
	Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn.				
	Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty.				
	Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol.				
	Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned.				
	Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau.				

¹⁶ Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm; er enghraifft, byddai gwyrdd yn dangos bod y gweithgareddau a aseswyd yn cael eu cyflawni ym mhob achos.

¹⁷ Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, **Passing the Baton**, 2008

Proses ryddhau	Arferion disgwyliedig	Ysbyty Treforys	Ysbyty Tywysoges Cymru	Ysbyty Singleton	Ysbyty Castell-nedd Port Talbot	
Cam 2 Achosion rhyddhau cymhleth	Cynhelir sgysiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol.					
	Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol.					
	Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebwyd i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal.					
	Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr.					
Cam 3 Bob tro wrth ryddhau	Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh).					
	Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau aciwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol.					
Cam 4 Bob tro wrth ryddhau	Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh.					
	Gellir addasu'r ADRh yn unol ag ymateb yr unigolyn i driniaeth, er mwyn pennu dyddiad rhyddhau realistig.	Ceir tystiolaeth bod hyn wedi digwydd, ond ni chafodd ADRh ond ei gofnodi yn 26%, 21%, 11% a 7% o'r nodiadau achos, yn y drefn honno.				
	Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd.					
	Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch					
	Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau.					

Proses ryddhau	Arferion disgwyliedig	Ysbyty Treforys	Ysbyty Tywysoges Cymru	Ysbyty Singleton	Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
Achosion rhyddhau cymhleth	Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf.				
	Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth.				
	Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth.				
	Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo.				
	Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol.			Amherthnasol	
	Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra GIP).			Amherthnasol	Amherthnasol
	Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano			Amherthnasol	Amherthnasol
	Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal			Amherthnasol	Amherthnasol
	Gwybodaeth am y Polisi Dewis			Amherthnasol	Amherthnasol
	Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector)			Amherthnasol	Amherthnasol
Cam 5 Bob tro wrth ryddhau	Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried.				

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Mehefin 2016

Atodiad 2

Methodoleg archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynllunio i ryddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull o archwilio isod.

Dangosyn 19: dulliau archwilio

Dull	Manylion
Ffurflen Casglu Data – Cynllunio i Ryddhau Cleifion (gwybodaeth ar lefel y Bwrdd Iechyd)	<p>Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion yn brydlon; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.</p> <p>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd y ffurflen casglu data ym mis ar 20 Mawrth 2017.</p>
Ffurflen Casglu Data – Lolfa Ryddhau	<p>Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaethau lolfa ryddhau i ddisgrifio pob lolfa ryddhau. Gofynnwyd am yr oriau gweithredu, y proffil staffio, nifer y cleifion yr oedd y lolfa yn ei gynnwys a'r amgylchedd i cleifion.</p> <p>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddwy ffurflen ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Treforys• Ysbyty Tywysoges Cymru
Ffurflen Casglu Data – Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion	<p>Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y tîm cyswllt rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch oriau gweithredu, y proffil staffio, costau'r tîm/gwasanaeth a natur ei weithgarwch.</p> <p>Lle'r oedd sawl tîm cyswllt rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty aciwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.</p> <p>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd bedair ffurflen, un ar gyfer pob un o'r timau cyswllt rhyddhau sy'n gweithredu yn yr ysbytai a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Treforys• Ysbyty Castell-nedd Port Talbot• Ysbyty Singleton• Ysbyty Tywysoges Cymru

Dull	Manylion
Cais am ddogfennau	<p>Buom yn adolygu dogfennau gan y Bwrdd Iechyd a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisïau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a dewis cartref, llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. Dibynnwyd hefyd ar wybodaeth yn yr adroddiadau a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan bob bwrdd iechyd neu bartneriaeth ranbarthol, a roddai grynoded o'r defnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno, yn 2015-16.</p>
Cyfweliadau	<p>Buom yn cyfweid â nifer o aelodau staff, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prif Weithredwr Dros Dro • Aelod Annibynnol o'r Bwrdd (Gwasanaethau Cymdeithasol) • Prif Weithredwr Cynorthwyol • Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol • Pennaeth Gwybodaeth Dros Dro • 3 x Chyfarwyddwr Nyrsio yr Uned Gyflawni • 2 x Gyfarwyddwr Gwasanaeth yr Uned Gyflawni • 1 x Pennaeth Therapi Galwedigaethol yr Uned Gyflawni • 2 x Reolwr Gwely • 2 x Aelod o'r Tîm Llif Cleifion • 4 x Rheolwr Ward • 2 x gynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol
Defnydd o ddata presennol	<p>Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith Uned Gyflawni GIG Cymru o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan StatsCymru ar gyfer nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau.</p>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 3

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Dangosyn 20: ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei bolisi rhyddhau yn cynnwys cyfeiriad at gynllunio buan i ryddhau cleifion, y risg o aildderbyn cleifion, a rhyddhau o Adrannau Achosion Brys.	Polisi Rhyddhau hygyrch a hawdd ei ddeall sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, a bod y staff yn teimlo'n hyderus wrth ryddhau cleifion.	Ydy	Do	<p>Bydd polisi rhyddhau presennol y Bwrdd Iechyd yn cael ei adolygu i adlewyrchu canllawiau Ilif SARFER Cymru, sydd ar gael eu cyhoeddi, i bwysleisio'r budd o ryddhau cleifion yn gynnar a thynnu sylw at y risgiau'n gysylltiedig ag arosiadau hir yn yr ysbyty, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• bod cleifion yn gwano;• dal haint yn yr ysbyty; a• codymau a briwiau gwasgu ymhlith cleifion. <p>Wrth adnewyddu'r polisi bydd adborth a'r hyn a ddysgwyd o bob rhan o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil 'Torri'r Cylch', a gynhaliwyd rhwng 8 a 22 Ionawr 2018.</p>	Mawrth 2018 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill	Cyfarwyddwr Nyrsio Uned Ysbyty Singleton

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A2	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl llwybrau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a manteisio ar y cyfle i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystyried eu rhesymoli (cael gwared ag unrhyw achosion diangen o orgyffwrdd); • gwneud y cysylltiadau rhwng pob un o'r llwybrau yn fwy eglur; • gwneud unrhyw wybodaeth esboniadol yn gliriach; • disgrifio'r holl llwybrau mewn un man; a • sicrhau bod llwybrau'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. 	Llwybrau hygyrch a hawdd eu deall sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, ac y mae staff yn teimlo'n hyderus i'w cymhwyso wrth ryddhau cleifion.		Do	<p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu a chytuno ar llwybrau mewn partneriaeth ag ALLau a WAST a chleifion ar draws yr holl lwybr gofal heb ei drefnu er mwyn cefnogi trefniadau i atal derbyniadau a sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n fwy prydlon.</p> <p>Ffocws neilltuol yn 2018-19 fydd adolygiad o'r llwybr codymau i gleifion nad ydynt wedi cael anaf i'w hesgyrn.</p> <p>Cytunwyd ar safonau llwybr rhyddhau Bae'r Gorllewin er mwyn sicrhau bod ymagwedd gyson yn cael ei datblygu ar draws y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Bydd cynnydd pellach tuag at fodol optimaidd cytunedig Bae'r Gorllewin o gymorth i symleiddio'r llwybrau rhyddhau cyfredol, ac yn gwneud y cysylltiadau rhwng llwybrau yn gliriach.</p>	<p>Adolygiad chwarterol</p> <p>Ebrill 2018</p> <p>Wedi'i gytuno a'i sefydlu</p> <p>Yn barhaus drwy raglen Bae'r Gorllewin – adolygiad chwarterol</p>	<p>Prif Swyddog Gweithredu</p> <p>Prif Weithredwr Cynorthwyol</p> <p>Cyfarwyddwyr Nyrsio Uned</p>

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
					<p>Yn ystod 2018-19, ceir ffocws neilltuol hefyd ar ddatblygu capasiti a chefnogi staff i weithredu'r model rhyddhau i asesu a'r aseswr dibynadwy er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau amrywio.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Uned yn datblygu ymagwedd unedig drwy'r Bwrdd Iechyd at Green to Go#End/Pj Paralysis.</p>	Mawrth 2018	<p>Cyfarwyddwyr Nyrsio Uned a Phenaethiaid Therapi</p> <p>Cyfarwyddwyr Nyrsio Uned</p>
A3a	Sicrhau bod presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn cael ei nodi ar gofnod electronig y staff, fydd yn helpu i wella'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth.	Cynllunio i ryddhau cleifion wedi gwella gan fod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n dda, a bod gan y Bwrdd Iechyd gofnod o gydymffurfio â gofynion hyfforddi.	Ydy	Do	<p>Bwriedir ailsefydlu'r sesiynau 'sgwrs gyflym' i staff ysbytai ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion.</p> <p>Anogir yr holl staff sy'n mynychu sesiynau hyfforddi sicrhau eu bod yn nodi eu presenoldeb ar gofnod electronig y staff.</p>	Ebrill 2018 ar sail dreigl	Cyfarwyddwyr Nyrsio Uned/Penaethiaid Therapiau

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A3b	Datblygu hyfforddiant sy'n cynorthwyo i feithrin hyder y staff er mwyn rhyddhau cleifion yn fwy prydlon ac ymdrin â sgyrsiau anodd â chleifion a'u teuluoedd.	Cynllunio i ryddhau cleifion yn well, gan fyrhau arosiadau, creu mwy o ddiwrnodiau gwely a chanlyniadau gwell i gleifion.	Ydy	Do	<p>Bydd polisi rhyddhau y Bwrdd Iechyd yn cael ei adolygu i adlewyrchu canllawiau llif SAFER Cymru, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2018, i bwysleisio'r budd o ryddhau cleifion yn gynnar a thynnu sylw at y risgiau'n gysylltiedig ag arosiadau hir yn yr ysbyty, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cleifion yn gwanio; • dal haint yn yr ysbyty; a • chodymau a briwiau gwasgu ymhlith cleifion. <p>Trefnwyd gweithdai llif SAFER ar gyfer 8 a 9 Chwefror 2018, er mwyn helpu staff i feithrin hyder ac atgyfnerthu pwysigrwydd cychwyn trafodaeth gynnar â theuluoedd a chleifion ar fanteision rhyddhau'n gynnar ac yn brydlon.</p> <p>Datblygu rôl aseswr dibynadwy i therapyddion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gomisiynu gwasanaethau cymorth rheng flaen gan yr ALI o fewn pedair awr (dylai'r gwasanaethau</p>	<p>Caiff y Polisi ei adnewyddu yn ystod mis Chwefror/ Mawrth i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2018.</p> <p>Chwefror 2018</p> <p>O fis Mawrth 2018 ac yn barhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Uned Singleton</p> <p>Prif Weithredwr Cynorthwyol</p> <p>Pennaeth Therapiau</p>

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
					<p>cymunedol adolygu'r gwasanaethau o fewn 48 awr).</p> <p>Bydd angen ymagwedd fesul cam ar gyfer hyn er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhau nifer yr aseswyr dibynadwy; • datblygu rhaglen hyfforddi i gefnogi darpariaeth model cynaliadwy ar gyfer aseswyr dibynadwy; a • gwerthuso effaith rôl yr aseswyr dibynadwy ar lif a chanlyniadau cleifion. <p>Ailwampio'r trefniadau i ryddhau dan arweiniad nyrsys yng nghydestun trefniadau newydd i ryddhau dan arweiniad y clinigydd cywir (i gynnwys therapyddion). Mae fframwaith llywodraethu clinigol i hyrwyddo ac annog trefniadau rhyddhau dan arweiniad nyrsys a therapyddion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.</p>	Ebrill 2018	Cyfarwyddwyr Nyrsio Uned ar Pennaeth Therapiau

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A3c	Ystyried a oes angen i feddygon ymgynghorol derbyn hyfforddiant ar ryddhau cleifion a bod yn ymwybodol o faterion a pholisi.	Cynllunio i ryddhau cleifion yn well, gan fyrhau arosiadau, creu mwy o ddiwrnodiau gwely a chanlyniadau gwell i gleifion.		Do	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod manteision arweinyddiaeth glinigol gref a throsglwyddo gofal yn glinigol fel ysgogwyr ansawdd/diogelwch allweddol.</p> <p>Bydd sicrhau ymwybyddiaeth or canllawiau llif cleifion SAFER a chysondeb wrth weithredu'r canllawiau hynny ymhlith yr holl broffesiynau yn lleihau'r amrywio o ran llif cleifion a phrosesau rhyddhau cleifion.</p> <p>Anogir yr holl glinigwyr i fod yn bresennol yn y gweithdai llif SAFER ac yn lansiad canllawiau llif saffach Cymru ym mis Chwefror. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn hyrwyddo presenoldeb staff meddygol ar bob lefel.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Brifysgol ynglŷn â hyfforddiant llif / rhyddhau cleifion SAFER, gan nad yw hynny wedi'i gynnwys yn rhan o'r rhaglen hyfforddi meddygol ar hyn o bryd.</p>	<p>Chwefror 2018</p> <p>Ionawr 2018</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol</p>

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A4	<p>Atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad gerbron y Bwrdd a'i Bwyllgorau drwy gynnwys y mesurau a ganlyn yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer; aillderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty; y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd; canran yr achosion o ryddhau sy'n digwydd yn ystod y nos, heb gynllunio ar eu cyfer; a y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'. 	<p>Mae Bwrdd a chanddo olwg dda ar berfformiad y Bwrdd lechyd o ran cynllunio i ryddhau cleifion, yn ymwybodol o'r profiad a gaiff cleifion yn ystod y broses o gynllunio i'w rhyddhau, ac yn gweld unrhyw effaith negyddol ar ganlyniad claf yn sgil cynllunio (neu ddiffyg cynllunio) i'w ryddhau.</p>		Do	<p>Mae'r rhaglen llif cleifion wedi cytuno ar fetrigau safonedig er mwyn pennu beth fydd effaith gwelliannau i'r broses ar lif cleifion, a bydd y mesurau hyn yn cael eu hadrodd gerbron pwyllgor cyllid a pherfformiad y Bwrdd lechyd o 2018-19 ymlaen. Bydd y metrigau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> nifer a % y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer; aillderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty; y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd; canran y cleifion a ryddheir o'r lolfar rhyddhau cyn hanner dydd; a chanran y cleifion a ryddheir o'r lolfar rhyddhau. 	O fis Ebrill 2018 gan fonitro'n fisol	Prif Weithredwr Cynorthwyol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoria eth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (Do/Naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
					<p>Mae angen gwneud gwaith pellach a rhoi hyfforddiant pellach i'r staff er mwyn cyfrifo canran y cleifion y datgenir eu bod yn 'feddygol iach' a ryddheir cyn pen 24 awr a 72 awr. Bwriedir cynnal peilot lle gweithredir dangosfyrddau ward yn llawn ar ddwy ward ym mhob uned gyflawni i ddechrau er mwyn cynorthwyo i gasglu'r holl ddata ar fetrigau'r ward berthnasol.</p> <p>Nid yw'r Bwrdd iechyd yn bwriadu rhyddhau cleifion gyda'r nos, ond gall cleifion weithiau eu rhyddhau eu hunain y tu allan i oriau arferol. Nid yw'r Bwrdd lechyd yn cofnodi canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu cynnal cip-archwiliad bob chwe mis er mwyn rhoi sicrwydd nad oes unrhyw broblemau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion yn hwyr yn y nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio.</p>	<p>Ebrill 2018</p> <p>Archwiliadau chwe-misol ym mis Ebrill a mis Medi</p>	<p>Cyfarwyddwyr Nyrsio yr Uned</p> <p>Cyfarwyddwyr Nyrsio yr Uned</p>

Atodiad 4

Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r byrddau iechyd pa mor aml y byddai eu timau cyswllt rhyddhau yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion. Yn **Nangosyn 21** gwelir pa mor aml y cyflawnir y gweithgareddau a restrir yn 15 o'r timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru.

Arddangosyn 21: pa mor aml y bydd y timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau

	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
Cymryd rhan mewn rowndiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth	33%	40%	20%	7%	0%
Cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi	53%	40%	7%	0%	0%
Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth	60%	27%	13%	0%	0%
Cysylltu â chyrrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau	60%	27%	7%	7%	0%
Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol	67%	33%	0%	0%	0%
Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai	27%	20%	40%	7%	7%
Dilysu data ar oedi wrth drosglwyddo gofal	87%	7%	0%	0%	7%

	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion yn brydlon	33%	13%	40%	13%	0%
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion	67%	20%	0%	7%	7%
Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd	27%	27%	20%	7%	20%
Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref	33%	27%	27%	7%	7%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017 ([Gweler Troednodyn 12](#))

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales